**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi safbwynt teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifenydd y Cabinet Dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**6 Mai 2025**

## RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau") yn gwahardd cyflenwi a chynnig cyflenwi weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig yng Nghymru.

1.2 Mae'r Rheoliadau yn ychwanegu "weips gwlyb" at y tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, ("Deddf 2023"). Mae'r diwygiad hwn yn gwneud weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig yn "gynnyrch plastig untro gwaharddedig" at ddibenion Deddf 2023. Diffinnir "cynnyrch plastig", "untro" a "phlastig" o dan adran 1 o Ddeddf 2023

1.3 Mae rheoliad 3 yn ychwanegu'r diffiniad o "weip wlyb", "meddygol" a "triniaeth" at baragraff 2 o'r Atodlen i Ddeddf 2023, at ddiben y tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen.

1.4 Mae'r Rheoliadau'n darparu hefyd ar gyfer esemptiad mewn cysylltiad â chyflenwi weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig, drwy ddiwygio colofn 2 o'r tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i Ddeddf 2023.

1.5 Mae'r Rheoliadau'n bwriadu mynd i'r afael â'r llygredd amgylcheddol a achosir yn sgil defnyddio weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig ac i gyflymu'r newid i ddefnyddio dewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio neu sy'n fwy cynaliadwy.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y pwerau a roddir gan adran 3(1) o Ddeddf 2023.

3.2 Mae Deddf 2023 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wahardd cyflenwi a chynnig cyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro yng Nghymru.

3.3 Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 3 o Ddeddf 2023, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag:

a. awdurdodau lleol
b. corff adnoddau naturiol Cymru a phobl eraill sy'n hyrwyddo diogelu'r amgylchedd yng Nghymru
c. pobl sy'n cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr neu gyflenwyr cynhyrchion plastig Untro
d. pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig
e. unrhyw bobl eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

3.4 Wrth ystyried a ddylid arfer y pŵer yn adran 3, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried eu dyletswydd— i hybu datblygu cynaliadwy o dan adran 79(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac i gynnal datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.5 Yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf 2023 mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Amcanion polisi'r cynigion hyn yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir gan lygredd plastig a microblastig, yn enwedig yn ein hafonydd a'n moroedd, yn sgil defnyddio weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

- Annog symudiad tuag at ddewisiadau amgen nad ydynt yn blastig neu rai y gellir eu hailddefnyddio yn lle weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

- Cefnogi'n hamcan strategol ehangach i fynd i'r afael â'r diwylliant gwastraffus drwy annog pobl i newid eu hymddygiad mewn perthynas â defnyddio cynhyrchion untro.

Mynd i'r afael yn strategol â chynhyrchion plastig ac untro yng Nghymru

4.2 Nod ein cynigion yw adeiladu ar y camau pendant y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd eisoes i leihau llygredd plastig yng Nghymru. Ni oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i leihau'n sylweddol y defnydd o fagiau siopa untro trwy gyflwyno tâl o dan Reoliadau Tâl Bagiau Siopa Defnydd Sengl (Cymru) 2010 a gweithio gyda gwledydd eraill y DU i wahardd gwerthu microbelenni mewn cynhyrchion gofal personol i'w rinsio i ffwrdd o dan Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018.

4.3 Drwy gyflwyno Deddf 2023, rydym wedi targedu sawl cynnyrch plastig untro sy'n gysylltiedig â bwyd a diod i'w bwyta a'u hyfed wrth fynd, sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel. Mae cynhyrchion fel gwellt plastig untro, troellwyr diodydd,

cyllyll a ffyrc a chwpanau polystyren ymestynedig a chynwysyddion bwyd yn gynnyrch plastig untro gwaharddedig yng Nghymru.

4.4 Mae'r Rheoliadau'n rhan o ymrwymiad strategol parhaus Llywodraeth Cymru i leihau gwastraff plastig ac i ddileu cynhyrchion untro diangen, yn enwedig y rhai sydd wedi'u gwneud o blastig.

4.5 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau hefyd i gefnogi gweithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â llygredd plastig, gan gynnwys cynigion y Cenhedloedd Unedig am gytundeb rhyngwladol newydd ar lygredd plastig sy'n gyfreithiol rwymol.

Y broblem llygredd plastig

4.6 Llygredd plastig yw un o'r problemau amgylcheddol mwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Yn ôl arolwg Yonder Consulting yn 2018 ar blastigau yn y cefnfor, mae naw o bob deg (89%) o bobl yn y DU yn nodi eu bod yn poeni am lygredd plastig yn y cefnfor a'r effeithiau y mae hyn yn eu cael ar fywyd gwyllt y môr. Dangosodd ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2021 ar leihau plastig untro fod cefnogaeth aruthrol i weithredu deddfwriaethol yn y maes hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ymhellach gyda'u cynigion i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol. Yn eu plith, roedd 63% o'r ymatebwyr yn cefnogi gweithredu i fynd i'r afael â weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

4.7 Er gwaethaf y pryderon hyn, canfu arolwg Thames Water yn 2022 fod 22% o bobl yn cyfaddef eu bod yn fflysio weips gwlyb i systemau carthffosiaeth ac yn adroddiad dadansoddi cyfansoddiad sbwriel 2019 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, cafwyd bod weips gwlyb yn cyfrif am ryw 2.5% o sbwriel yn ôl y cyfrif eitemau. Mae hyn yn dangos, er gwaethaf ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gan y Diwydiant Dŵr (gan gynnwys ymgyrch Gallwch chi Stopio'r Bloc Dwr Cymru), mae llawer iawn o weips gwlyb yn dal i gael eu taflu mewn ffordd amhriodol ac yn cael eu gollwng yn yr amgylchedd.

4.8 Mewn astudiaeth yng nghyfnodolyn Science of the Total Environment yn 2021, nodwyd bod weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn gyfran arwyddocaol o'r llygredd plastig yn ein hafonydd a'n cefnforoedd. Mae weips gwlyb sy'n cynnwys plastig sy'n cael eu taflu mewn ffordd amhriodol yn aros yn yr amgylchedd ac yn dadelfennu'n ficrobelenni plastig dros amser.

4.9 Canfu Prosiect Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU 2022, na chafodd ei gyhoeddi, y gall gweithfeydd trin dŵr gwastraff godi 99% o ficroblastigau yn ôl rhif a 99.5% yn ôl màs, ond ceir tystiolaeth gynyddol os yw hyd yn oed canran fach o ficroblastigau yn cael eu golchi i'r system garthffosiaeth, eu bod yn achosi niwed i fywyd gwyllt, yr amgylchedd a hyd yn oed iechyd pobl, pan gânt eu rhyddhau.

4.10 Mae erthygl yn 2017 yn y National Geographic yn rhoi trosolwg o'r problemau pan fydd anifeiliaid y môr yn llyncu plastig, gan dynnu sylw at ymchwil ar frwyniaid ac infertebratau morol yn arbennig. Yn ôl erthygl o 2024 ar argyfwng

llygredd plastig y byd yn y National Geographic, yn ogystal â niwedio bywyd y môr a dŵr croyw, canfuwyd bod rhai anifeiliaid mawr y tir fel eliffantod, teigrod, camelod a gwartheg wedi marw o ganlyniad i lyncu symiau mawr o blastig. Gwyddys bod llyncu plastigau a microblastigau wedi effeithio ar gyfanswm o bron 2,100 o rywogaethau.

4.11 Yn ogystal â niwed i'r organebau eu hunain, trosglwyddir y gronynnau a'r tocsinau mewn microblastigau i fyny'r gadwyn fwyd ac yn y pen draw i fwyd sy'n cael ei fwyta gan bobl. Yn ôl papur Assessing Plastic Ingestion from Nature to People a gyhoeddwyd gan Brifysgol Newcastle Awstralia ar gyfer y World Wildlife Fund yn 2019, mae pobl yn llyncu tua 5g o blastig yr wythnos - yr un faint ag sydd mewn cerdyn credyd - yn bennaf yn eu dŵr yfed. Mynegwyd yr un pryderon yng nghyhoeddiad Sefydliad Iechyd y Byd yn 2019 Microplastics in Drinking Water.

4.12 Er nad ydym yn deall yn llawn risgiau llygredd microblastigau i iechyd pobl a bod angen ymchwil pellach, mae tystiolaeth gynyddol o'r potensial am niwed. Er enghraifft, mae astudiaethau ar gelloedd dynol ac anifeiliaid wedi canfod bod hyn yn cael effaith frawychus, gan arwain at niweidio'r coluddyn, newid athreiddedd celloedd ac, mewn ambell achos, blocio llwybrau treulio, yn ogystal ag achosi llid fel a ddisgrifir mewn erthygl yn 2019 ar yr ymchwil ddilynol sydd ei hangen ar ficroblastigau. Mynegwyd pryderon tebyg mewn papur yn 2019 gan Cox et al, Human Consumption of Microplastics.

4.13 Yn 2022, cyhoeddodd UK Water Industry Research dystiolaeth yn dangos bod weips gwlyb yn crynhoi lefelau a allai fod yn niweidiol o facteria ysgarthol, gan gynnwys *E coli*. Mae'n ymddangos bod y bacteria hyn yn cydio wrth weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn amlach nag wrth ddeunyddiau naturiol fel gwymon a thywod, gan wneud i'r bacteria bara mewn dŵr ac ar draethau. Gallai hyn arwain at broblemau iechyd difrifol i'r rhai sy'n defnyddio traethau a glannau afonydd. Pan na cheir rheolaeth briodol ar wastraff plastig a'i fod yn cael mynd i'r amgylchedd, ychydig iawn y gallwn ei wneud i'w dynnu ohono. Ond gallwn gymryd camau i osgoi dod i gysylltiad â'r gwastraff neu rwystro'r broblem rhag gwaethygu. Mae'r adroddiad yn nodi gwaharddiad fel ateb posibl i broblem weips gwlyb sy'n cael eu fflysio.

4.14 Er bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch y niwed posibl a achosir gan blastigau i iechyd pobl, mae gwyddonwyr wedi ein hannog i fod yn rhagofalus, gydag un gwyddonydd yn cymharu'r broblem â'r ymdrech ddegawdau o hyd i argyhoeddi llywodraethau bod ysmygu yn achosi canser (o Microplastics are in our bodies. How much do they harm us? Cyhoeddwyd gan National Geographic yn 2023).

4.15 Hyd yn oed pan fydd weips gwlyb yn cael eu gwaredu'n briodol, gallant barhau i achosi niwed i'r amgylchedd. Gan nad oes modd ailgylchu weips gwlyb, mae'r rhai sy'n cael eu gwaredu yn briodol yn tueddu i ymuno â'r llif gwastraff gweddilliol a'u hanfon i safleoedd tirlenwi neu'n cael eu llosgi. Yn ôl Ffigurau chwarterol StatsCymru Rheolaeth o wastraff chwarterol yn ôl dull rheoli, mae'r

rhan fwyaf o wastraff gweddilliol aelwydydd Cymru yn cael ei losgi i gynhyrchu ynni.

4.16 Yn ôl WRAP yn 2021 yn adroddiad metrigau gwastraff carbon ac adnoddau, mae llosgi plastig yn arwain at lawer mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr na deunyddiau naturiol amgen. Yn lle weips gwlyb, gellir defnyddio rhai fiscos, y mae dros 99% ohono wedi'i wneud o fwydion pren a lyocell, sy'n ddewis amgen di-blastig sydd ar gael yn gyffredin. Felly, mae anfon llai o blastig i'r ffrwd gwastraff gweddilliol yn bwysig i leihau allyriadau wrth drin gwastraff. Yn ôl A life-cycle assessment from 2021 gan Zhang, et al, wrth gymharu weips gwlyb plastig â weips sydd wedi'u gwneud o fiscos sydd ar gael yn y farchnad yn Tsieina, gwelwyd eu bod yn ddewis amgen da i atal gollyngiadau plastig i'r amgylchedd.

4.17 Yn yr un modd, mae'r broses o gynhyrchu plastig ei hun yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae cynhyrchu un dunnell o blastig yn cynhyrchu 1.9-2.3 tunnell o Co2e o'i gymharu â 0.2 tunnell o Co2e i gynhyrchu tunnell o bren, yn ôl yr adroddiad WRAP uchod.

**Sail Resymegol dros Ymyrraeth Llywodraeth Cymru**

4.18 Mae'r defnydd o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn creu effeithiau negyddol o ran y gost i'r amgylchedd a chymdeithas oherwydd y llygredd plastig. Nid yw'r farchnad yn cyfrif cost yr effeithiau negyddol hyn, felly maent yn gweithio fel allanolion negyddol. O'r herwydd, nid oes cyfrif llawn am yr effeithiau hyn yn yr economi pan fydd cwmnïau a phobl yn cynhyrchu, gwerthu, defnyddio a gwaredu weips gwlyb plastig. Mae bodolaeth allanolion negyddol fel y rhain yn y pen draw yn arwain at ddefnydd uwch na'r optimwm o'r cynhyrchion hyn gan gymdeithas. Mae hyn yn ddiffyg yn y farchnad ac mae angen gweithredu gan lywodraeth i leihau'r gor-ddefnydd.

4.19 Mae hyd at 90% o'r weips a gynhyrchir gan cynhyrchwyr weips gwlyb yn y DU, fel Nice-Pak International eisoes yn ddi-blastig, ac mae manwerthwyr fel Boots the Chemist, Tesco a Holland & Barrett eisoes wedi rhoi'r gorau i werthu weips gwlyb plastig. Mae hwn yn gam cadarnhaol a chanmoladwy, ond mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd y trawsnewid, ar draws y diwydiant cyfan, yn parhau'n araf heb ymyrraeth gan y llywodraeth. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ceir yr awgrym mai dim ond tua hanner y gwneuthurwyr (53%) sydd â chynlluniau i roi'r gorau i gynhyrchu weips gwlyb plastig yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'r brys yn yr angen i ddileu plastig untro diangen yn golygu bod angen i'r Llywodraeth weithredu i gyflymu'r broses.

4.20 Mae effeithiau llygredd plastig a microblastig ar yr amgylchedd, ar dir ac yn ein dyfroedd, yn golygu mai'r cynnig i wahardd yw'r dewis a ffefrir. Fel y trafodwyd, o ganlyniad i ddifrifoldeb yr effeithiau negyddol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu plastig diangen a gwahardd cynhyrchion plastig problematig lle ceir dewisiadau amgen addas. Yn achos weips gwlyb ar gyfer glanhau'r cartref a gofal personol, mae'r ffaith nad oes angen rhai plastig a bod dewisiadau amgen addas yn bod, yn cyfiawnhau'r

asesiad bod unrhyw ddefnydd yn or-ddefnydd, a 'dim' yw'r lefel defnydd optimwm o fewn cymdeithas. O ganlyniad, cefnogir cyflwyno gwaharddiad.

4.21 Mae deddfu am waharddiad yn anfon neges gadarnhaol bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar fynd i'r afael â phroblem amgylcheddol allweddol. Bydd cyhoeddi a gorfodi'r ddeddfwriaeth hon yn annog busnesau i 'wneud y peth iawn' a rhoi'r gorau i gyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â sawl cam ymgysylltu ac ymgynghori i helpu i ddatblygu ei pholisïau ar weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig.

5.2 Rhwng 30 Gorffennaf 2020 a 22 Hydref 2020, gofynnwyd yn ein hymgynghoriad Lleihau Plastig Untro a ddylid gweithredu ar weips gwlyb yn y dyfodol (gan gynnwys gwaharddiadau posibl). Fel rhan o'r broses hon, holodd Llywodraeth Cymru y Diwydiant Dŵr, busnesau a'r rhai y gallai'r cynigion effeithio arnyn nhw, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio yn y sector iechyd. Roedd dros 60% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid gweithredu pellach. Ond mynegwyd pryderon ynghylch gwaharddiad cyffredinol a galwodd rhai ymatebwyr am eithriadau i rai defnyddwyr a sectorau (er enghraifft gofal iechyd) pe bai gwaharddiad yn cael ei gyflwyno.

5.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, aeth Llywodraeth Cymru yn ei blaen i ddatblygu ei pholisïau a rhoddwyd ystyriaeth i osod cyfyngiadau ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig o dan Ddeddf 2023. Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, holodd Llywodraeth Cymru eto grwpiau, unigolion a busnesau. Dangosodd y trafodaethau hyn nad oedd dewisiadau amgen addas yn lle weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn bodoli mewn rhai sefyllfaoedd, megis lleoliadau meddygol a rhai diwydiannau, lle mae'r cryfder a ddarperir gan blastig yn angenrheidiol ac nad yw ar gael ar hyn o bryd trwy ddeunyddiau eraill. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cyfansoddiad weips gwlyb a sut y gellid eu diffinio. Ar y sail hon penderfynwyd peidio â chynnwys weips gwlyb yng ngham un Deddf 2023, ond ymrwymodd y Gweinidog i ddatblygu ein cynigion ymhellach.

### Cynigion ledled y DU

5.4 Er mwyn helpu i leddfu rhai o'r pryderon a nodwyd yn ein hymgynghoriad cynharach, cytunwyd y dylid ceisio gweithredu ar y cyd ledled y DU. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar draws y DU am chwe wythnos, rhwng 14 Hydref 2023 a 25 Tachwedd 2023 a gofynnwyd am farn ar y canlynol:

a. cynnig gwaharddiad ar y busnesau sy'n cynhyrchu, cyflenwi neu'n gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig;
b. Effaith debygol y gwaharddiad arfaethedig ar ddefnyddwyr, yn enwedig i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, e.e. pobl anabl;

c. Unrhyw effeithiau ehangach cadw weips gwlyb sy'n cynnwys plastig mewn cylchrediad;
d. Unrhyw effeithiau ehangach y weips sy'n cael eu marchnata fel rhai amgen neu ddi-blastig;
e. Cyfansoddiad weips gwlyb amgen;
f. A oes angen esemptiadau ar gyfer weips gwlyb sy'n cynnwys plastig; a
g. Yr amserlen arfaethedig ar gyfer dechrau'r gwaharddiad.

5.5 Derbyniwyd cyfanswm o 1,561 o ymatebion, gyda 95% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig i wahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Er bod cefnogaeth ysgubol ymhlith grwpiau cyhoeddus ac amgylcheddol, roedd 60% o'r busnesau a ymatebodd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynigion. Testun pryder arbennig oedd bod gweithgynhyrchwyr wedi'u cynnwys yn y cynigion ac effaith anghymesur bosibl hynny ar y diwydiant yn y DU.

5.6 Pryder arall a nodwyd oedd yr angen am amserlen bontio ddigonol i'r diwydiant allu addasu. Mae'r peiriannau a ddefnyddir i gynhyrchu weips di-blastig yn wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddir i gynhyrchu weips plastig. Roedd barn ymatebwyr ynghylch hyd y cyfnod pontio yn amrywio, ond teimlwyd bod angen o leiaf 24 i 36 mis.

5.7 Nid oedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi unrhyw bryderon ehangach am effeithiau negyddol ein cynigion, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod bod weips amgen, di-blastig i'w defnyddio yn y cartref eisoes ar gael yn rhwydd.

5.8 Cafodd ymatebion llywodraethau'r pedair gwlad eu cyhoeddi ar-lein ar wefan Llywodraeth y DU oedd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei chynigion terfynol trwy Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Senedd ar 22 Ebrill 2024 a oedd yn cynnwys penderfyniadau polisi allweddol yn dilyn yr ymgynghoriad ar gwmpas y gwaharddiad, yr amser pontio a'r esemtiadau. Dyma'r rhain yn gryno:

a. **Gwahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig**. Rydym wedi gwrando ar randdeiliaid ac yn cydnabod maint y diwydiant gweithgynhyrchu yn y DU. Felly, fe wnaethom benderfynu cyflwyno gwaharddiad ar gyflenwi'r weips hyn, yn unol â chwmpas y gwaharddiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2023. Bwriad hyn yw lliniaru effaith economaidd y gwaharddiad a lleihau'r posibilrwydd o golli swyddi yn y diwydiant.

b. Darperir **cyfnod pontio o 18 mis** i alluogi gweithgynhyrchwyr i symud y gwaith cynhyrchu i ddeunyddiau amgen ac i leihau'r risg y byddai stociau sy'n weddill yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu'n cael eu llosgi.

c. Darparu **esemptiad** ar gyfer cyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig at ddibenion diwydiannol a meddygol. Daw hyn yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad a amlygodd bod dewisiadau amgen di-blastig

o safbwynt rhai defnyddiau yn anaddas, neu nad oes unrhyw ddewisiadau amgen ar gael.

5.9 Ar 6 Mai, cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu’r newidiadau sydd wedi’u gwneud i’r polisi adeg drafftio’r Rheoliadau. Roedd y newidiadau yn egluro’r canlynol:

a. Nid oedd **esemptiad penodol at ddibenion diwydiannol** yn ofynnol yng Nghymru, gan fod y troseddau ‘*cyflenwi*’ neu ‘*gynnig cyflenwi’* yn berthnasol yn unig i ‘*ddefnyddwyr*’, sy’n cael eu diffinio fel ‘*unigolyn neu unigolion sy’n gweithredu at ddibenion sy’n gyfan gwbl neu’n bennaf y tu allan i grefft, busnes neu broffesiwn yr unigolyn hwnnw*’

b. Symleiddiwyd yr **esemptiad a ragwelwyd i ganiatáu i fferyllfeydd** barhau i gyflenwi weips gwlyb sy’n cynnwys plastig i ganiatáu parhau i gyflenwi weips gwlyb sy’n cynnwys plastig mewn unrhyw leoliad os cânt ‘*eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol’*

c. Symleiddiwyd hefyd y **diffiniad o weip wlyb** ac fe’i diffinnir bellach fel ‘*darn o ffabrig anweedig sydd wedi ei ragwlychu*’

5.10 Mae'r drosedd o gyflenwi neu gynnig cyflenwi o dan Ddeddf 2023 ond yn berthnasol pan fydd cynhyrchion plastig untro gwaharddedig yn cael eu cyflenwi i "ddefnyddiwr". Felly ni fydd y Rheoliadau'n effeithio ar gadwyni cyflenwi 'busnes i fusnes'. Bydd hyn yn caniatáu i gyfanwerthwyr barhau i gyflenwi i fusnesau a sefydliadau sydd angen y weips hyn, neu'n caniatau i gyflenwyr eu cyflenwi'n uniongyrchol. Gall y rhain fod yn fusnesau neu sefydliadau yn y sector preifat a chyhoeddus.

5.11 Mae'r Rheoliadau'n cynnwys esemptiad ar gyfer weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig sy'n cael eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol.

## RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau

6.1 Nod y polisi yw atal llygredd plastig a microblastig o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig trwy wahardd cyflenwi a chynnig y weips hyn i ddefnyddwyr amrywiol. Mae'r sail resymegol ar gyfer hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol uchod.

6.2 Ystyriwyd sawl opsiwn polisi arall ochr yn ochr â'r 'busnes fel arfer' a'r 'opsiwn a ffefrir' (h.y. lleihau neu wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig). Fodd bynnag, ni symudwyd y rhain ymlaen gan na fyddent yn bodloni'r buddion amgylcheddol a ddymunir ar yr un cyflymder a graddfa â'r dull a ffefrir. Mae'r opsiynau polisi hyn sy'n cael eu hystyried a'u gwrthod yn cael eu hamlinellu isod:

**a. Gwybodaeth ac addysg i weithgynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr -** O dan yr opsiwn hwn byddem yn ceisio hysbysu gweithgynhyrchwyr a busnesau am fanteision amgylcheddol symud i ffwrdd o wipes gwlyb sy'n cynnwys plastig. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth am lwyddiant eraill yn y sector wrth newid yn wirfoddol i ddewisiadau amgen nad ydynt yn rhai plastig. Fodd bynnag, er y bu rhywfaint o gynnydd gyda'r dull hwn, rhagwelir heb ymyrraeth ddeddfwriaethol, byddai'r newid hwn yn parhau i fod yn arafach ac yn dal i arwain at barhau i ddefnyddio'r cynhyrchion hyn.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys cefnogi ymgyrch genedlaethol i fynd i'r afael â gwaredu wipes gwlyb yn anghywir i'r carthffosydd cyhoeddus trwy fflysio, er enghraifft defnyddio ymgyrchoedd tebyg i "Gallwch chi stopio'r bloc" Fodd bynnag, gwrthodwyd y dull hwn gan na fyddai'n arwain at weips gwlyb gyda chynnwys plastig yn cael eu ddiddymu'n raddol.

**b. Labelu** - O dan yr opsiwn hwn, gallai pecynnau weips gwlyb gynnwys label sy'n nodi a yw'n cynnwys plastig. Yn 2020, cyflwynodd yr Undeb Ewropeaidd reoliadau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i rai cynhyrchion gael eu labelu os oeddent yn cynnwys plastig a'u bod yn cael eu hystyried yn untro, roedd hyn yn cynnwys weips gwlyb. Trwy ein trafodaethau â manwerthwyr, deallir bod rhai cynhyrchwyr eisoes wedi cynnwys label yr UE ar gynhyrchion a werthir yn y DU er mwyn osgoi'r costau cynyddol o gael pecynnu gwahanol ar gyfer gwahanol farchnadoedd. Awgrymwyd bod hyn wedi arwain at rywfaint o newid oherwydd canfyddiad negyddol y labeli hyn gan ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r cynhyrchion hyn yn parhau ar y farchnad ac mae gwaredu wipes yn anghywir yn parhau, gan awgrymu nad yw'r opsiwn

hwn yn unig yn ddigonol i ddileu defnydd diangen o blastig mewn weips gwlyb i defnyddwyr.

c. **Cyflwyno tâl ar wipes gwlyb sy'n cynnwys plastig** - O dan yr opsiwn hwn byddai'n ofynnol i fusnesau godi tâl ychwanegol ar y cynhyrchion hyn. Ni ystyriwyd yr opsiwn hwn yn ddull effeithiol oherwydd, er y gallai arwain at ostyngiad yn nifer y weips sy'n cael eu gwerthu yn y farchnad, ni fyddai'n atal microblastigau rhag mynd i mewn i'r amgylchedd yn unol â'n hamcanion polisi. Hefyd, mae tystiolaeth o wyddoniaeth ymddygiadol a meysydd polisi eraill yn dangos bod y dull hwn yn gofyn am gynnydd yn y tâl neu'r dreth dros amser er mwyn osgoi cynyddu defnydd eto dros amser a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol yn y tymor hir, fel y canfuwyd mewn astudiaeth yn Ne Affrica o ardoll bagiau plastig y wlad. Cyflwynwyd canfyddiadau tebyg mewn perthynas ag Iwerddon i'r 'Deialog ar Fagiau Gwaredu' ym Mrwsel gan gynrychiolwyr o Adran yr Amgylchedd, Cymuned a Llywodraeth Leol Llywodraeth Iwerddon.

d. **Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr** – O dan yr opsiwn hwn, byddai cost gwaredu weips gwlyb plastig yn cael ei drosglwyddo o drethdalwyr i'r busnesau sy'n eu cynhyrchu a'u rhoi ar y farchnad. Fodd bynnag, mae'r mathau hyn o gynlluniau yn gymhleth ac yn cymryd amser i'w datblygu ac yn gostus i'w gweithredu ac felly gwrthodwyd hyn.

e. **Cymorthdaliadau -** O dan yr opsiwn hwn byddai cymorthdaliadau ariannol yn cael eu darparu i weithgynhyrchwyr i gefnogi eu symudiad i ddatblygu weips gwlyb di-blastig. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn ar y sail bod weips gwlyb di-blastig eisoes yn cael eu cynhyrchu yn y DU ac mae sawl prif fanwerthwr eisoes wedi ymrwymo i stocio mathau di-blastig yn unig.

**Rhestr fer o opsiynau**

Opsiwn 1: Gwneud dim

6.3 Dyma'r dewis y caiff yr opsiwn a ffefrir ei asesu yn ei erbyn, ac o'r herwydd mae'r costau a'r buddion yn sero. Yn absenoldeb ymyrraeth y llywodraeth, byddai weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn parhau i gael eu gwerthu yng Nghymru heb unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau. Er bod rhai manwerthwyr yn symud i ffwrdd o weipe gwlyb sy'n cynnwys plastig a gweithgynhyrchwyr yn y DU yn cynyddu eu cynhyrchiant, mae'r newid mewn symudiad o'r fath yn araf. O'r herwydd, bydd yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, fel llygredd plastig, yn parhau hyd yn oed os bydd camau gwirfoddol yn llwyddo i ddarparu dewisiadau amgen ar raddfa heb gefnogaeth ymyrraeth y llywodraeth. Felly, mae angen

cymryd camau pendant i fynd i'r afael â llygredd plastig a microblastig. Byddai gwneud dim byd yn arwain at newid rhy fach, neu rhy araf.

Opsiwn 2: Gwahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

6.4 Yr opsiwn a ffefrir yw cyflwyno deddfwriaeth i wahardd cyflenwi weips gwlyb plastig untro a werthir i ddefnyddiwr yng Nghymru i leihau effeithiau amgylcheddol llygredd plastig a microblastig. Mae hyn yn unol â dulliau a gymerwyd gyda chynhyrchion plastig untro eraill megis cyllyll a ffyrc, platiau a chynwysyddion polystyren ar gyfer bwyd a diodydd tecawê a waharddwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2023 o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) 2023.e Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Act 2023.

6.5 Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ystod ein prosesau ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, darperir eithriad mewn perthynas â chyflenwi, neu gynnig cyflenwi, weip gwlyb a ddyluniwyd neu a weithgynhyrchiwyd i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol. Mae hyn er mwyn caniatáu i weips arbenigol gael eu defnyddio at y dibenion hyn lle nad yw dewis arall heb blastig naill ai'n bodoli neu nad ydynt yn addas. Nid yw'r Rheoliadau ychwaith yn gymwys i gyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig rhwng busnesau, h.y. pan nad yw'r cynnyrch yn cael ei gyflenwi i ddefnyddiwr (er enghraifft, i'w ddefnyddio mewn ffatrïoedd neu sefydliadau arlwyo).

## 7. Costau a manteision – Costau a manteision ariannol ac anariannol yr opsiwn a ffefrir yn erbyn y llinell sylfaen

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu costau a manteision gwaharddiad ar gyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i ddefnyddwyr o'i gymharu â pheidio â chymryd unrhyw gamau (gwrthffeithiol).

7.2 Er bod y gwaharddiad ar gyfer y DU gyfan, bydd yn ofynnol i bob gwlad yn y DU gyflwyno a gweithredu ei deddfwriaeth ei hun. Am y rheswm hwn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei gynnal i amcangyfrif y costau a'r manteision sydd i'w gweld ledled y DU a fyddai'n deillio o waharddiad ar werthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yng Nghymru. Nid yw unrhyw gostau sy'n deillio o gyflwyno gwaharddiad tebyg mewn mannau eraill yn y DU wedi cael eu cynnwys a bydd pob gwlad yn cynhyrchu ei hasesiad effaith ei hun. Nid yw costau a manteision sydd i'w gweld y tu allan i'r DU wedi cael eu cynnwys.

7.3 Mae'r asesiad hwn yn defnyddio data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) wrth asesu effaith gwaharddiad tebyg yn Lloegr. Lle bo modd gwneud hynny mae'r gwaith hwn wedi cael ei deilwra ar gyfer Cymru. Pan oedd ar gael mae tystiolaeth sy'n benodol i Gymru wedi cael ei defnyddio. Bydd asesiad effaith DEFRA yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU. Mae hyn fel arfer yn cyd-fynd â gosod y ddeddfwriaeth gerbron Senedd y DU.

7.4 Er y bydd y gwaharddiad yn berthnasol i gyflenwi weips gwlyb i ddefnyddwyr yn unig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys opsiynau i wahardd eu gweithgynhyrchu yn ogystal â gwaharddiad ar werthiannau busnes i fusnes a gwerthiannau at ddibenion meddygol. Felly, mae'r asesiad effaith hwn yn cynnwys rhywfaint o dystiolaeth o effaith peidio ag estyn y gwaharddiad i'r cynhyrchion hyn er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol.

## Gwrthffeithiol/ llinell sylfaen

Ymchwil i nodi weips gwlyb a gynhyrchir ac a werthir yn y DU

7.5 Mae amcangyfrif o nifer weips gwlyb a gynhyrchir ac a werthir yn y DU isod yn Nhabl 1. Mae hyn yn seiliedig ar adroddiad na chafodd ei gyhoeddi, gan Valpak (ymgynghorwyr sy'n helpu'r diwydiant i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol). Cafodd yr adroddiad ei gomisiynu gan DEFRA yn 2022 ac mae'n adolygu weips gwlyb a roddwyd ar farchnad y DU. Dadansoddodd Valpak y farchnad rhwng 2012–2021 gan ddefnyddio ei gronfa ddata sy'n cynnwys data ar gynhyrchion o dair cadwyn fawr o archfarchnadoedd, sy'n cyfateb i dros 50% o farchnad manwerthu bwyd y DU yn ôl gwerth y gwerthiannau Yn ogystal, cafodd dau gynhyrchydd dosbarthu cyfanwerthu ac arlwyo sy'n cyfateb i 33% o gyfran marchnad y sianel arlwyo/gwasanaethau bwyd hefyd. Cafodd y data hwn i estyn wedyn er mwyn amcangyfrif y farchnad gyfan. Mae'r ymchwil hon yn amcangyfrif i 31 biliwn o weips gwlyb gael eu rhoi ar y farchnad yn 2021. Dylid nodi mai ar gyfer pob math o weip gwlyb y mae'r amcangyfrifon hyn gan gynnwys weips di-blastig a'r rhai sy'n cynnwys plastig.

Tabl 1: Weips gwlyb wedi'u rhoi ar y farchnad (miliynau o weips) – (o adroddiad 2022)Valpak, nas cyhoeddwyd, a gafodd ei gomisiynu gan Defra)

| Math o gynnyrch | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Plant** | 20,543 | 15,702 | 20,462 | 16,813 | 18,477 |
| **Glanhau** | 5,605 | 5,733 | 5,232 | 7,154 | 7,190 |
| **Cosmetig** | 2,006 | 2,485 | 1,750 | 1,197 | 1,205 |
| **Gofal Iechyd** | 39 | 27 | 30 | 89 | 59 |
| **Gofal Optegol** | 81 | 87 | 81 | 66 | 79 |
| **Hylendid Personol** | 3,322 | 3,030 | 3,208 | 3,028 | 3,525 |
| **Gofal Anifeiliaid Anwes** | 16 | 18 | 16 | 12 | 14 |
| **Cyfanswm** | **31,612** | **27,082** | **30,780** | **28,359** | **30,549** |

7.6 Yn ei ymchwil, dywedodd Valpak fod 96% o'r weips gwlyb a gafodd eu cynnwys yn yr amcangyfrifon yn dod o ffynonellau manwerthu, gyda'r 4% sy'n weddill yn dod o gyfanwerthu. Yn unol â rhagdybiaethau DEFRA, rydym yn tybio bod y ffigurau hyn yn cynrychioli weips gwlyb sy'n cael eu gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr. Yn ôl amcangyfrif gan y diwydiant o ddefnydd

byd-eang, a gyhoeddwyd mewn erthygl ar wefan y diwydiant Nonwovens, mae gwerthiannau busnes i fusnes neu weips gwlyb at ddibenion diwydiannol yn cyfrif am 20% o'r farchnad. Tybiwyd, felly, fod amcangyfrif Valpak yn cynrychioli 80% o gyfanswm y weips gwlyb wedi'u gwerthu yn y DU, a chafodd hyn ei estyn i gynnwys gwerthiannau weips gwlyb busnes i fusnes.

7.7 Tybir bod yr amcangyfrif o werthiannau busnes i fusnes, gyda chytundeb rhanddeiliaid y diwydiant, yn cynnwys weips gwlyb wedi'u cynhyrchu at ddibenion diwydiannol neu feddygol. Cafodd cyfran gwerthiannau weips gwlyb busnes i fusnes at ddibenion meddygol ei hamcangyfrif gan DEFRA, gan ddefnyddio data o gadwyn gyflenwi'r GIG (Lloegr), sy'n cynrychioli cyfran o ysbytai'r GIG yn Lloegr wedi'i hestyn i roi ffigur ar gyfer 100%. Cafodd hyn ei estyn ymhellach i gynnwys cyfleusterau preifat yn seiliedig ar amcangyfrif o gyfran y gofal meddygol wedi'i ddarparu gan y GIG o'i chymharu â chyfleusterau preifat yn seiliedig ar wybodaeth gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Yn olaf, gan ddefnyddio ystadegau poblogaeth sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), cafwyd amcangyfrif o 3,401 miliwn o weips gwlyb meddygol yn y DU ar gyfer 2021.

7.8 Gan ddefnyddio dadansoddiad Valpak o'r weips gwlyb wedi'u rhoi ar y farchnad, amcangyfrifir bod nifer y weips gwlyb a werthwyd yn y DU rhwng 2012 a 2021 wedi tyfu 2.1% y flwyddyn. Tybir y bydd y gyfradd twf hon yn parhau dros y cyfnod gwerthuso deng mlynedd. Fel yr amlinellir yn Nhabl 2, erbyn 2033 amcangyfrifir y bydd mwy na 48 biliwn o weips gwlyb yn cael eu defnyddio yn y DU, gyda 39 biliwn o'r rhain yn cael eu gwerthu i ddefnyddwyr.

Tabl 2: Weips gwlyb wedi'u gwerthu yn y DU (miliynau o weips) (o asesiad effaith economaidd DEFRA)

| Wedi'u Gwerthu | 2024 | 2026 | 2028 | 2030 | 2032 | 2033 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddwyr** | 32,472 | 33,821 | 35,226 | 36,690 | 38,214 | 39,000 |
| **Busnes i Fusnes – Meddygol** | 3,616 | 3,766 | 3,922 | 4,085 | 4,255 | 4,342 |
| **Busnes i Fusnes – Arall** | 4,502 | 4,689 | 4,884 | 5,087 | 5,299 | 5,408 |
| **Cyfanswm** | **40,590** | **42,277** | **44,033** | **45,862** | **47,768** | **48,750** |

7.9 Mae Valpak yn amcangyfrif bod tua 2.5% o weips gwlyb a werthwyd i ddefnyddwyr yn 2021 wedi cael eu mewnforio. Mae cyfyngiadau i'r data a ddefnyddiwyd gan ei fod yn casglu data ffynhonnell o'r busnes sy'n adrodd yn unig. Felly, pe bai cynnyrch yn cael ei fewnforio yn gynharach yn y gadwyn gyflenwi (er enghraifft, y manwerthwr terfynol yn prynu'r cynnyrch gan gyfanwerthwr yn y DU a oedd wedi mewnforio'r cynnyrch) ni fyddai hyn yn cael ei nodi. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi'n hysbysu bod manwerthwyr mwy yn y DU yn tueddu i brynu weips gwlyb yn uniongyrchol oddi wrth wneuthurwyr. Ategwyd hyn gan ymatebion i ymgynghoriad y DU, gyda dwy ran o dair (78%) o fanwerthwyr (ac eithrio'r rhai a atebodd 'ddim yn

gwybod') yn dweud eu bod yn prynu eu holl weips gwlyb neu'r rhan fwyaf ohonynt yn uniongyrchol o weithgynhyrchwyr.

7.10 Fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraff 7.6, mae 96% o werthiannau weips gwlyb a gafodd eu nodi gan ddata Valpak yn dod o ffynonellau manwerthu. Gwyddys hefyd fod gan wneuthurwyr weips gwlyb mawr ffatrïoedd yn y DU, gyda rhai o'r rhain yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn awgrymu, er bod rhai cyfyngiadau i amcangyfrif Valpak, yn ôl pob golwg mae eu casgliad bod cyfran y weips gwlyb sy'n cael eu mewnforio'n isel yn gasgliad ddilys. Er mwyn osgoi tanamcangyfrif o ran diwydiant gweithgynhyrchu'r DU, rydym wedi defnyddio amcangyfrif Valpak ac wedi tybio bod 2.5% o weips gwlyb yn cael eu mewnforio. Yn y dadansoddiad hwn, cymhwysir y gyfran hon i weips gwlyb wedi'u gwerthu i ddefnyddwyr a gwerthiannau busnes i fusnes.

7.11 Mae gwaith ymgysylltu â sector gweithgynhyrchu weips gwlyb y DU hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod allforio yn rhan allweddol o'u busnes. Yn yr ymatebion testun rhydd i'r ymgynghoriad, ac mewn trafodaethau dilynol gyda chynrychiolwyr allweddol yn y diwydiant, dywedodd sawl gwneuthurwr eu bod yn allforio cyfran sylweddol o'r weips gwlyb maent yn eu cynhyrchu. O'r ffigurau a roddwyd, roedd y rhain yn tueddu i amrywio rhwng 20–50% o gyfanswm eu gwerthiannau. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae'r pwynt canol (35%) wedi cael ei ddefnyddio'n amcangyfrif canolog o gyfran y weips gwlyb wedi'u gweithgynhyrchu yn y DU sy'n cael eu hallforio. Felly, mae Asesiad Effaith DEFRA yn amcangyfrif bod gweithgynhyrchwyr y DU yn cynhyrchu tua 61 biliwn o weips gwlyb, y cafodd tua 32 biliwn ohonynt eu gwerthu i ddefnyddwyr yn 2024, fel y nodi yn Nhabl 3.

Tabl 3: Weips gwlyb wedi'u gweithgynhyrchu yn y DU (miliynau o weips) (o Asesiad Effaith Economaidd DEFRA)

| Cynhyrchwyd | 2024 | 2026 | 2028 | 2030 | 2032 | 2033 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y DU – Defnyddwyr** | 31,647 | 32,962 | 34,332 | 35,758 | 37,244 | 38,009 |
| **Y DU – Busnes i Fusnes** | 7,912 | 8,241 | 8,583 | 8,939 | 9,311 | 19,200 |
| **Allforion** | 21,301 | 22,186 | 23,108 | 24,068 | 25,068 | 25,583 |
| **Cyfanswm** | **60,860** | **63,389** | **66,022** | **68,765** | **71,622** | **73,095** |

7.12 Dylid nodi mai ar gyfer pob math o weip gwlyb y mae'r amcangyfrifon hyn (weips di-blastig a rhai sy'n cynnwys plastig). Mae'r atodiad economaidd sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan yn amcangyfrif cyfran y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn seiliedig ar adroddiad Valpak. Nododd yr adroddiad, oherwydd nad oedd yn ofynnol i gynhyrchwyr nodi'r cynnwys plastig ar y label, ei bod yn anodd nodi cyfran y plastig. O'r cynhyrchion a adolygwyd gan Valpak ar gyfer eu hastudiaeth, dim ond chwarter a nododd a oeddent yn cynnwys plastig neu beidio. Wedyn bu'n rhaid gwneud rhagdybiaethau ynghylch cyfran y tri chwarter a oedd yn weddill a oedd yn cynnwys plastig, ac roedd hyn yn lleihau dibynadwyedd yr amcangyfrifon yn sylweddol. Er mwyn sicrhau bod y data'n gadarn i'w ddadansoddi, gofynnwyd cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan (gweler isod).

Data ymgynghoriad y DU gyfan

7.13 Gofynnwyd i weithgynhyrchwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan amcangyfrif cyfran y weips gwlyb a gynhyrchwyd ganddynt ar gyfer marchnad y DU sy'n cynnwys plastig. Roedd yr ymateb cymedrig yn agos at 50%. Er mwyn sicrhau bod hyn yn adlewyrchu marchnad y DU yn well, hidlwyd yr ymatebion i gynnwys busnesau canolig a mawr yn unig oherwydd, yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd mewn ymatebion i ymgynghoriad y DU gyfan, tybir bod gan fusnesau mwy gyfran fwy o'r farchnad. Arweiniodd hyn at gyfradd ymateb gymedrig o ~40%.

7.14 Wedyn ategwyd hyn ymhellach â thystiolaeth arall, gan gynnwys dadansoddiad gan y cynhyrchydd weips gwlyb Nice-Pak, sy'n amcangyfrif bod 25% o weips babanod yn y DU, sy'n cyfrif am 60% o weips gwlyb wedi'u gwerthu i ddefnyddwyr a werthir, yn cynnwys plastig. At ddibenion ein dadansoddiadau, tybiwyd felly mai 25% a 50%, yn y drefn honno, oedd y pwyntiau isaf ac uchaf, gyda'r pwynt canol o 38% yn cael ei ddefnyddio fel yr amcangyfrif canolog. Mae hyn yn is na'r ~60% a ddefnyddir yn atodiad economaidd yr ymgynghoriad a nodir ym mharagraff 7.12, ond tybir ei fod yn fwy cadarn. Gan nad oes gennym ddata ar y rhaniad ar draws categorïau, cymhwyswyd hyn yn gyfartal ar draws pob math o weip gwlyb. Mae ein cyfrifiadau yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn i'w gweld yn Nhabl 4.

Tabl 4: Weips gwlyb a werthwyd i ddefnyddwyr yn y DU, 2023 (miliynau o weips) (o asesiad effaith economaidd DEFRA)

| Math | Cyfanswm | Cyfran |
|---|---|---|
| Plastig | 11,932 | 38% |
| Di-blastig | 19,886 | 63% |
| **Cyfanswm** | **31,818** | |

7.15 Er bod cwestiynau wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan i nodi rhaniad y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig a werthwyd ledled gwledydd y DU, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth bendant i nodi bod cyfran y weips gwlyb ym mhob gwlad yn amrywio. Felly, rydym wedi graddio'r defnydd o weips gwlyb yng Nghymru yn ôl poblogaeth yn Nhabl 5 isod, yn seiliedig ar boblogaeth o 5% ar gyfer Cymru o'i chymharu â'r DU:

Tabl 5: Weips gwlyb a werthwyd i ddefnyddwyr yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU, 2023 (miliynau o weips)

| | Plastig | Di-blastig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 553 | 921 | **1,474** |
| **Gweddill y DU** | 11,379 | 18,965 | **30,344** |

7.16 Gan fod rhai busnesau eisoes yn cymryd camau i leihau faint o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig maent yn eu cynhyrchu neu eu gwerthu, tybir y byddai cyfran y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn parhau i ostwng hyd yn oed heb waharddiad (er y byddai hyn yn digwydd yn arafach). Yn yr ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan, gofynnwyd i fusnesau a oeddent yn bwriadu newid i weips gwlyb di-blastig yn unig heb waharddiad, ac os felly, yr amserlen ar gyfer gwneud hynny. Defnyddiwyd ymatebion gan weithgynhyrchwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU i nodi'r gostyngiad llinell sylfaen mewn weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Cafodd y rhai a oedd eisoes yn cyflenwi weips gwlyb di-blastig yn unig eu heithrio, a thybiwyd nad oedd gan y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod unrhyw gynlluniau i newid o fewn y cyfnod gwerthuso deng mlynedd. Mae'r cyfrifiadau hyn yn Nhabl 6 isod.

Tabl 6: Amserlen gronnus ar gyfer busnesau i newid yn gyfan gwbl i gynhyrchion di-blastig (o asesiad effaith economaidd Defra)

| Blynyddoedd Pontio | Rhif cronnus | Cyfran gronnus |
|---|---|---|
| 0–1 | 1 | 6% |
| 1–3 | 3 | 18% |
| 3–5 | 9 | 53% |
| 5–10 | 10 | 59% |
| 10+ | 17 | 100% |

7.17 Gan ddefnyddio'r canlyniadau yn Nhabl 6, tybiwyd mai'r pwynt canol yn y band amser oedd y pwynt pan oedd y busnes wedi rhoi'r gorau'n llwyr i gynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar gyfer marchnad y DU heb waharddiad. Gostyngwyd cyfran y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig bob blwyddyn â chyfran y busnesau y tybiwyd eu bod wedi newid i gynhyrchion di-blastig. Gwnaed hyn drwy luosi cyfran gronnus y busnesau a oedd yn dal i ddefnyddio plastig yn y flwyddyn honno â chyfran llinell sylfaen statig y weips gwlyb a oedd yn cynnwys plastig (h.y. 38%).

7.18 Yn seiliedig ar hyn, mae cyfran y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar y farchnad yn gostwng o 38% i 16% erbyn diwedd y cyfnod gwerthuso 10-mlynedd yn y senario gwrthffeithiol. Tybir bod cyfran y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig wedi'u gwerthu'n gyson ar draws gwledydd y DU, fel y dangosir yn Nhabl 7 isod.

Tabl 7: Busnesau llinell sylfaen sy'n cynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig a chyfran y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig (o asesiad effaith economaidd DEFRA)

| Llinell Sylfaen | 2024 | 2026 | 2028 | 2030 | 2032 | 2033 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrifir bod cyfran y busnesau sy'n cynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar hyn o bryd yn parhau i'w cynhyrchu** | 100% | 88% | 65% | 46% | 44% | 42% |
| **Cyfran y weips gwlyb a werthir sy'n dal i gynnwys plastig** | 38% | 33% | 24% | 17% | 16% | 16% |

**Diwydiant weips gwlyb**

Cyfrifo nifer y cynhyrchwyr weips gwlyb

7.19 Cafodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ei ddefnyddio i amcangyfrif nifer y busnesau yn ôl eu maint. Gan nad oes un Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) yn cynrychioli'r diwydiant gweithgynhyrchu weips gwlyb, bu'n rhaid nodi Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol eraill i gynrychioli'r diwydiant. Gwnaed hyn drwy chwilio tŷ'r Cwmnïau am godau SIC cofrestredig sampl o weithgynhyrchwyr weips gwlyb mawr, yn ogystal ag edrych ar atebion i'r ymgynghoriad (lle gofynnwyd i fusnesau pa godau SIC y mae'r gwaharddiad yn fwyaf tebygol o effeithio arnyn nhw). Nodwyd y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol canlynol fel y rhai mwyaf perthnasol:

- 13.95 Gweithgynhyrchu eitemau anweëdig a nwyddau a wnaed o eitemau anweëdig, ac eithrio dillad
- 17.22 Gweithgynhyrchu nwyddau tŷ a nwyddau glanweithiol a nwyddau ymolchi angenrheidiol
- 20.4 Gweithgynhyrchu sebon a glanedyddion, cymysgeddau glanhau a sgleinio a chymysgeddau persawrau a nwyddau ymolchi
- 20.56 Gweithgynhyrchu cynhyrchion cemegol eraill heb fod mewn unrhyw gategori arall

7.20 Gan ddefnyddio data busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU, cafodd cyfanswm nifer y busnesau (22,000) a chyfanswm trosiant y diwydiant (£49bn) ar draws y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol[1] hyn, eu defnyddio i amcangyfrif y trosiant cyfartalog fesul cynhyrchydd (£2.2m). Rhannwyd hyn gydag amcangyfrif mewnol o gyfanswm refeniw'r diwydiant wrth gynhyrchu weips gwlyb (£1.5m) i bennu nifer y weips gwlyb. Mae'r dull a ddefnyddir i amcangyfrif refeniw cynhyrchwyr weips gwlyb yn y DU wedi'i nodi'n fanwl yn yr adran costau busnes. Ond, roedd hyn yn golygu lluosi cyfanswm y weips gwlyb a gynhyrchwyd gyda'r pris manwerthu cyfartalog i ganfod cyfanswm refeniw manwerthu weips gwlyb. Yna, cafodd yr ychwanegiad at y prisiau manwerthu a chyfanwerthu ei dynnu gan ddefnyddio data a amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

7.21 Arweiniodd hyn at amcangyfrif cychwynnol o 688 o gynhyrchwyr. Cafodd yr un set ddata gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys data ar nifer y busnesau yn ôl maint ym mhob Dosbarthiad Diwydiannol Safonol, ei defnyddio i amcangyfrif cyfran y busnesau yn y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol hyn yn ôl maint. Cafodd yr amcangyfrif o 688 o gynhyrchwyr ei luosi

[1] Oherwydd bod data ar goll ar lefel SIC 4-digid, cafodd Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol 3-digid eu defnyddio ar gyfer yr amcangyfrif hwn.

gan y cyfrannau hyn i amcangyfrif nifer y cynhyrchwyr weips gwlyb yn ôl maint.

*Tabl 8:* Amcangyfrif cychwynnol o nifer y cynhyrchwyr weips gwlyb yn ôl maint y busnes (o asesiad Defra o'r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| | % y busnesau yn ôl maint | Nifer y cynhyrchwyr |
|---|---|---|
| **Micro** | 87% | 595 |
| **Bach** | 9% | 60 |
| **Canolig** | 4% | 27 |
| **Mawr** | 1% | 5 |

7.22 Arweiniodd hyn at amcangyfrif o 655 o gynhyrchwyr bach a micro (BaM). Fodd bynnag, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, daeth yn amlwg bod y dull hwn yn rhoi amcangyfrif llawer rhy uchel o gyfanswm y cynhyrchwyr, yn ogystal â chyfran y busnesau bach a micro. Felly, cafodd amcangyfrifon newydd eu cynhyrchu gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

7.23 Mae'r broses o gynhyrchu weips gwlyb yn eithaf cymhleth. Mae EDANA, corff masnachu blaenllaw ar gyfer y diwydiant anweëdig, wedi cynhyrchu graffigyn ar-lein i ddangos sut mae deunyddiau crai yn cael eu troi'n ddalennau anweëdig yn gyntaf, cyn cael eu rhedeg drwy drawsnewidydd ac ychwanegu toddiannau hylifol atyn nhw i greu'r cynnyrch terfynol. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod angen offer arbenigol i wneud hyn, sy'n ddrud fel arfer. Er enghraifft, drwy ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU, dywedodd un rhanddeiliad y gallai trawsnewidydd bach sy'n gallu cynhyrchu weips gwlyb heb blastig, gostio sawl miliwn o bunnoedd. Ar sail yr un data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a drafodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae trosiant blynyddol microfusnesau yn y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol a nodwyd, tua £200k ar gyfartaledd. Byddai hyn yn awgrymu bod prynu'r offer sydd ei angen i gynhyrchu weips gwlyb yn gallu bod yn fwy na 10 mlynedd o refeniw i gwmni micro. Mae hyn yn debygol o atal microfusnesau rhag bod yn berchen ar eu hoffer eu hunain.

7.24 Mae'r costau cyfalaf sefydlog uchel sy'n gysylltiedig â chynhyrchu weips gwlyb hefyd yn ffafrio busnesau mwy sy'n gallu manteisio ar gynhyrchu ar raddfa fawr, a lleihau'r pris fesul uned. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod cynhyrchwyr llai, felly, yn fwy tebygol o gynhyrchu cynnyrch arbenigol neu gystadlu mewn modd arall ar wahân i bris. Yn benodol, nododd rhanddeiliaid fod cynhyrchwyr bach a micro yn debygol o naill ai gynhyrchu weips diwydiannol arbenigol neu weips di-blastig i ddefnyddwyr (cystadlu ar sail rhinweddau amgylcheddol).

7.25 Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ymatebodd pedwar o gynhyrchwyr bach a micro i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU, ac roedd dau arall yn rhan o'r gwaith ehangach o ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU. Busnesau micro oedd pedwar o'r rhain, a dau yn fusnesau bach. Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU ac ymchwil ddesg Defra, canfuwyd nad yw o leiaf dri

o’r micro-gynhyrchwyr yn berchen ar eu hoffer cynhyrchu weips gwlyb a’u bod yn cael eu weips gwlyb gan wneuthurwyr eraill. Mae hyn yn y bôn yn golygu eu bod yn ‘ail-frandio’.

7.26 Dim ond weips gwlyb di-blastig y mae’r pedwar micro-gynhyrchydd yn eu cyflenwi, gyda’r pedwar yn nodi ar eu gwefan eu bod wedi dechrau’r busnes i lenwi bwlch tybiedig yn y farchnad ar gyfer cynnyrch ecogyfeillgar. Mae’r ddau weithgynhyrchydd bach yn cynhyrchu weips diwydiannol arbenigol ac nid ydynt yn cyflenwi i ddefnyddwyr. O’r herwydd, ni fydd y gwaharddiad yn effeithio ar ddim un o’r chwe chynhyrchydd bach a micro a nodwyd drwy’r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU.

7.27 Drwy’r ymgynghoriad, gofynnwyd am ragor o safbwyntiau am strwythur y farchnad. Gofynnwyd i ymatebwyr o’r diwydiant a oedden nhw’n cytuno â’r modd y rhannwyd y trosiant yn ôl maint y busnes a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ledled y DU, ac a oedd hyn yn ddarlun teg o’r diwydiant weips gwlyb. Roedd y rhain yn seiliedig ar ddata poblogaeth busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol a’r cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol ar gyfer gweithgynhyrchu. Ar sail y cyfrannau hyn, busnesau canolig a mawr sy'n gwneud y rhan fwyaf (86%) o drosiant y diwydiant. Gweler Tabl 9 isod:

*Tabl 9:* Cyfran y trosiant yn ôl maint y busnes ar gyfer sector gweithgynhyrchu’r DU (o asesiad Defra o’r effaith economaidd ar 2024, heb ei gyhoeddi)

| **Cyfran o’r farchnad yn y DU yn ôl trosiant** | | | | **Band maint cyflogaeth** |
|---|---|---|---|---|
| | **Micro** | **Bach** | **Canolig** | **Mawr** |
| | (0-9 o weithwyr) | (10-49 o weithwyr) | (50-249 o weithwyr) | (250 neu fwy o weithwyr) |
| **Gweithgynhyrchu** | 5% | 9% | 18% | 68% |

7.28 Yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, o blith y rheini a oedd yn weithgynhyrchwyr, roedd 21% yn cytuno mai gyda’r cynhyrchwyr canolig a mawr mae'r rhan fwyaf o’r trosiant. Roedd un gweithgynhyrchydd yn anghytuno, gan ddweud bod tri neu bedwar gweithgynhyrchydd yn rheoli'r farchnad, safbwynt a rannwyd drwy drafodaethau â rhanddeiliaid y diwydiant (a oedd yn cynnwys y corff masnach weips gwlyb). Nodwyd mai nifer fach iawn o gwmnïau mawr a gynhyrchodd y rhan fwyaf o weips gwlyb (ar sail maint) ar gyfer marchnad y DU.

7.29 Yn anffodus, nid oedd rhanddeiliaid yn gallu darparu data am gyfran y farchnad ar gyfer y diwydiant, ond roedd rhywfaint o dystiolaeth ar gael ar-lein. Mae Nice-Pak, cwmni mawr sy’n cynhyrchu weips gwlyb yn y DU, wedi datgan yn gyhoeddus ar eu gwefan eu bod, ar sail eu hymchwil, yn cynhyrchu ‘ymhell dros hanner’ y weips babi sy’n cael eu cyflenwi ar gyfer marchnad y DU. Mae Valpak yn amcangyfrif bod weips babi yn cynrychioli 60% o farchnad weips gwlyb i ddefnyddwyr y DU (adroddiad heb ei gyhoeddi ar gyfer Defra). Ar y sail hon, byddai Nice-Pak, o leiaf, yn cynhyrchu oddeutu traean o weips gwlyb i ddefnyddwyr ar gyfer marchnad y DU. Nid yw hyn yn cynnwys weips gwlyb

eraill, megis rhai i'r cartref, gofal croen a hancesi toiled llaith y mae Nice-Pak yn eu cynhyrchu hefyd (wedi'u dyfynnu yn yr un erthygl).

7.30 Ar sail y dadansoddiad hwn o'r ymgynghoriad, ymchwil ddesg, a'r dadansoddiad ehangach o randdeiliaid, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn annhebygol y byddai'r gwaharddiad yn effeithio ar gynhyrchwyr bach a micro fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd. Byddai'r effeithiau ar nifer gymharol fach o gynhyrchwyr canolig a mawr.

7.31 Er mwyn amcangyfrif nifer y cynhyrchwyr y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnyn nhw, defnyddiwyd dull tebyg a amlinellwyd uchod, heb gynnwys busnesau bach a microfusnesau. Defnyddiwyd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ganfod nifer y busnesau canolig a mawr (795) yn y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol perthnasol (y rheini a drafodwyd yn gynharach yn yr adran hon) a chyfanswm eu trosiant (£41bn). Cafodd hwn ei ddefnyddio i amcangyfrif trosiant y busnesau hyn (£51m) ar gyfartaledd. Rhannwyd hyn gyda chyfanswm refeniw cynhyrchu weips gwlyb i ddefnyddwyr y DU (a amcangyfrifwyd gan Defra'n fewnol) ac fe'i trafodwyd yn fanwl yn yr adran ar elw a cholled cynhyrchwyr) i roi amcangyfrif o 30 o fusnesau.

7.32 Cafodd hyn ei wirio yn erbyn cronfa ddata o'r holl gynhyrchwyr a nodwyd gan Defra drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ers i waharddiad gael ei gyhoeddi am y tro cyntaf gan gyfryngau fel BBC News yn 2018. Roedd hyn yn cynnwys galwad gyhoeddus am dystiolaeth gan Defra ar wahardd eitemau sy'n cael eu taflu fel sbwriel yn aml, gan gynnwys weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn 2021, a'r ymgynghoriad pedair gwlad ar wahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig o 2023 ymlaen. Mae hefyd yn cynnwys ymgysylltiad ychwanegol y diwydiant â chynhyrchwyr (sy'n amrywio o fusnesau micro i rai mawr, ac yn cynnwys y rheini sy'n cynhyrchu weips defnyddwyr, weips diwydiant arbenigol a weips iechyd), manwerthwyr (gan gynnwys manwerthwyr mawr sy'n gwerthu amrywiaeth eang o weips gwlyb â brand, yn ogystal â'u brandiau eu hunain), corff masnachu'r diwydiant weips gwlyb EDANA a'r corff masnach fanwerthu, Consortiwm Manwerthu Prydain.

7.33 Yn gyffredinol, nodwyd 22 o gynhyrchwyr weips gwlyb yn y DU, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n fusnesau canolig a mawr. O'r rhain, nodwyd bod 18 yn cynhyrchu weips gwlyb i ddefnyddwyr, gyda phump ohonyn nhw eisoes yn cynhyrchu dim ond weips gwlyb di-blastig. Roedd hyn yn gadael pedwar cynhyrchydd canolig a naw cynhyrchydd mawr y byddai'r gwaharddiad yn effeithio arnyn nhw (gweler tabl 10 isod). Nid yw'r gronfa ddata hon yn cynnwys manwerthwyr mawr sy'n gwerthu eu cynnyrch brand eu hunain, gan fod y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cadarnhau y byddai'r busnesau hyn yn rhai sy'n 'ail-frandio' hefyd, ond mae'n cynnwys microfusnesau sy'n disgrifio eu hunain fel gweithgynhyrchwyr ond y nodwyd eu bod yn 'ail-frandio'.

*Tabl 10*: Nifer y cynhyrchwyr weips gwlyb yn y DU a nodwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid (o asesiad Defra o'r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| | Cyfanswm | Cynhyrchu weips ar gyfer defnyddwyr | Cynhyrchu weips sy'n cynnwys plastig ar gyfer defnyddwyr |
|---|---|---|---|
| **Micro** | 4 | 4 | **0** |
| **Bach** | 2 | 0 | **0** |
| **Canolig** | 5 | 4 | **4** |
| **Mawr** | 11 | 10 | **9** |
| **Cyfanswm** | 22 | 18 | **13** |

7.34 Er nad oedd Defra yn gallu cadarnhau a fyddai'r dull hwn yn cyfrif am bob cynhyrchydd perthnasol yn y DU, mae ehangder y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhoi hyder ei fod yn gynrychioliadol o'r sector. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd bach hwn, mae'r amcangyfrif cynharach o 30 o gynhyrchwyr y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnyn nhw, wedi cael ei ddefnyddio yn y dadansoddiad. Ar sail y rhaniad yn y gronfa ddata a gynhyrchwyd yn fewnol (pedwar busnes canolig a naw busnes mawr), rydym yn amcangyfrif bod 69% o'r busnesau hyn yn fawr.

7.35 At ei gilydd, ymgysylltwyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac, wrth ystyried eu safbwyntiau a'u tystiolaeth ehangach, credwn fod y dull hwn yn rhoi sicrwydd o ran yr amcangyfrifon terfynol a gynhyrchir yma yn nhabl 11.

*Tabl 11:* Amcangyfrif terfynol o nifer y cynhyrchwyr weips gwlyb yn y DU y gallai'r gwaharddiad effeithio arnyn nhw (o asesiad Defra o'r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| | Nifer y cynhyrchwyr |
|---|---|
| **Canolig** | 9 |
| **Mawr** | 21 |
| **Cyfanswm** | 30 |

## Cyfrifo nifer y manwerthwyr

7.36 Mae Atodiad Economaidd Ymgynghoriad Weips Gwlyb y DU (gweler y '[dolenni cysylltiedig' ar waelod tudalen we Defra](#)), a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad pedair gwlad, yn rhestru nifer o Ddosbarthiadau Diwydiannol Safonol sy'n gysylltiedig â manwerthu y disgwylir i'r gwaharddiad effeithio arnyn nhw. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhain a gofyn iddyn nhw ddarparu Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol perthnasol eraill os oedden nhw'n anghytuno. Ar sail yr ymatebion hyn, tybiwyd y byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn effeithio ar y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol canlynol sy'n gysylltiedig â manwerthu:

- 4711 - Manwerthu mewn siopau nad ydynt yn rhai arbenigol sy’n gwerthu bwyd, diodydd neu dybaco yn bennaf

- 4719 - Manwerthu arall mewn siopau nad ydynt yn rhai arbenigol

- 4744 - Manwerthu eitemau cosmetig ac eitemau ymolchi mewn siopau arbenigol

- 4775 - Manwerthu nwyddau meddygol ac orthopedig mewn siopau arbenigol

7.37 Cafodd data busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei ddefnyddio i bennu faint o fusnesau yn ôl maint sydd yn y Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol hyn yn y DU. Amcangyfrifir nifer y busnesau manwerthu yng Nghymru o gyfran y siopau hwylus sydd wedi’u lleoli yng Nghymru, sef 6.3% mewn perthynas â’r cyfanswm yn y DU, fel y nodir yn Adroddiad Siopau Lleol Cymru 2022. Mae’r un ganran hefyd yn cael ei defnyddio i gyfrifo nifer y siopau manwerthu yng Nghymru. Dangosir hyn yn nhabl 12 isod:

*Tabl 12:* Nifer y busnesau manwerthu y mae’r gwaharddiad yn effeithio arnyn nhw, y DU a Chymru (wedi’i addasu o asesiad Defra o’r effaith economaidd ar gyfer 2024, heb ei gyhoeddi)

| | **Busnesau’r DU** | **Busnesau yng Nghymru** |
|---|---:|---:|
| **Micro** | 40405 | 2,546 |
| **Bach** | 3655 | 230 |
| **Canolig** | 270 | 17 |
| **Mawr** | 110 | 7 |
| **Cyfanswm** | **44440** | **2800** |

## Costau a manteision disgwyliedig

Llinell sylfaen weips gwlyb a werthir o’i gymharu â’r opsiwn sy’n cael ei ffafrio

7.38 Yn asesiad effaith Defra, tybir bod y diwydiant yn cydymffurfio’n llawn, felly pan ddaw’r cyfnod newid i ben yn 2026 (gyda’r gwaharddiadau'n cychwyn yn 2024), bydd yr holl weips gwlyb i ddefnyddwyr sy’n cael eu gwerthu ledled y DU yn ddi-blastig. Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg yng Nghymru. Tybir hefyd y bydd cynhyrchwyr a manwerthwyr yn dechrau lleihau faint o weips gwlyb sy’n cynnwys plastig maen nhw’n eu cynhyrchu i’w gwerthu ar y farchnad ddomestig yn ystod y cyfnod newid er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer yr adeg pan gyflwynir y gwaharddiad. Fodd bynnag, mae’r sefyllfa wrthffeithiol ar gyfer busnesau sy’n gweithgynhyrchu weips gwlyb sy’n cynnwys plastig, fel y cyflwynir yn nhabl 7, wedi cael ei haddasu i flwyddyn ddechrau 2025 gyda’r cyfnod arfarnu yn dod i ben yn 2034. Fel sy’n cael ei drafod yn yr adran ar y llinell sylfaen, tybir bod 97% o gyfanswm y weips gwlyb yn cael eu cynhyrchu yn y DU.

7.39 Yn yr adran isod ar ddadansoddiad cost a budd, tybir y bydd unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau sy’n deillio o’r gwaharddiad yn cael eu mewnoli gan y busnesau hynny. Fodd bynnag, fel sy’n cael ei drafod yn yr adran effeithiau ar ddefnyddwyr (yn nes ymlaen yn y ddogfen hon), mae’n bosibl y bydd

busnesau'n trosglwyddo rhywfaint o'r costau hyn, neu'r holl gostau, i'r defnyddwyr. Yn asesiad effaith Defra, mae wedi amcangyfrif mai bach fydd y cynnydd disgwyliedig mewn prisiau, ac felly na fyddai'r defnydd o weips gwlyb yn gostwng yn gyffredinol oherwydd y gwaharddiad ar weips sy'n cynnwys plastig. Mae hyn yn cael ei ategu gan y ffaith bod weips rhad, di-blastig ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd. Rydym wedi tybio'r un peth yng Nghymru, gan ddefnyddio'r boblogaeth fel gwerthiant canrannol ar gyfradd o 5%, sy'n cyfateb i boblogaeth Cymru fel cyfran o boblogaeth y DU (Tabl 13).

*Tabl 13:* Weips gwlyb i ddefnyddwyr a werthwyd yng Nghymru, llinell sylfaen ac opsiwn 1 (miliwn o weips) (o asesiad Defra o effaith economaidd 2024, heb ei gyhoeddi)

| | | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen** | **Plastig** | 576 | 529 | 300 | 297 | 293 |
| | **Di-blastig** | 960 | 1,070 | 1,400 | 1,474 | 1,551 |
| | **Cyfanswm** | 1,535 | 1,599 | 1,700 | 1,771 | 1,844 |
| **Opsiwn** | **Plastig** | 576 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Di-blastig** | 960 | 1,599 | 1,700 | 1,771 | 1,844 |
| | **Cyfanswm** | 1,535 | 1,599 | 1,700 | 1,771 | 1,844 |

### Effeithiau ar fusnesau o safbwynt gwerth ariannol

*Cynhyrchwyr yn colli elw (Cynhyrchwyr weips gwlyb)*

7.40 Byddai gwaharddiad yn cael effaith uniongyrchol ar fusnesau sy'n cynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, a byddai hyn yn arwain at lai o elw drwy beidio â chynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar gyfer marchnad defnyddwyr y DU. Mae'n bosibl y bydd rhai cynhyrchwyr yn rhoi'r gorau i gynhyrchu, ac yn dilyn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad pedair gwlad ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd Kimberly-Clark ei benderfyniad i gau ei safle gweithgynhyrchu yng ngogledd Cymru.

7.41 Cydnabyddir bod unrhyw newid o ran cynhyrchu yn debygol o arwain at lai o gyfanswm elw, neu byddai cynhyrchwyr eisoes wedi gwneud y newid hwn fel arall. Fodd bynnag, mae'n rhesymol disgwyl i gyfran o'r elw a gollwyd gael ei hadennill drwy gynhyrchu eitemau eraill.

7.42 Mae elw cynhyrchwyr yn rhan o gyfanswm eu refeniw o weips gwlyb a'r gost o gynhyrchu weips gwlyb. Defnyddiwyd y dull canlynol yn asesiad effaith Defra i amcangyfrif refeniw cynhyrchwyr o weips gwlyb, ac rydym wedi defnyddio'r un peth ar gyfer ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol.

7.43 Yn gyntaf, amcangyfrifwyd refeniw manwerthu drwy gymryd y pris cyfartalog am bob weip wlyb a lluosi hyn â nifer y weips gwlyb sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU i'w gwerthu yn y DU. Amcangyfrifwyd y pris cyfartalog am bob weip wlyb drwy ddefnyddio cyfrifiadau yn Adroddiad Valpak, a gymerodd y pris uchaf a'r pris isaf am bob weip wlyb ar gyfer pob categori cynnyrch weips gwlyb a werthwyd gan dair archfarchnad fawr yn y DU a phrif gadwyni manwerthu eraill. Yna, defnyddiwyd cyfartaledd pwysedig y costau hyn yn seiliedig ar

gyfran gwerthiant pob categori. Arweiniodd hyn at gost gyfartalog o 5c am bob weip.

7.44 Ar ôl amcangyfrif y refeniw manwerthu wrth werthu weips gwlyb yn y DU, cafodd yr ychwanegiad at y pris manwerthu (elw gros) ei dynnu. Cyfrifwyd yr ychwanegiad at y pris manwerthu gan ddefnyddio Data'r Arolwg Busnes Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) cod 47 'Masnach fanwerthu, ar wahân i gerbydau modur a beiciau modur'. Cyfrifwyd trosiant net prynu nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau fel cyfran o'r trosiant (ar gyfartaledd dros 5 mlynedd) gan roi amcan o 21% o ychwanegiad at y pris manwerthu, fel yr amlinellir yn Nhabl 14.

*Tabl 14:* Trosiant, prynu nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau ac ychwanegiad at y pris (ar gyfartaledd dros 5 mlynedd rhwng 2017 a 2021) (o asesiad Defra o'r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| | Trosiant (£m) | Prynu nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau | Trosiant llai'r pryniannau | Ychwanegiad at y pris |
|---|---|---|---|---|
| **Masnach cyfanwerthu, ar wahân i gerbydau modur a beiciau modur** | 859,711 | 738,172 | 121,539 | 14% |
| **Masnach fanwerthu, ar wahân i gerbydau modur a beiciau modur** | 424,771 | 334,094 | 90,678 | 21% |

7.45 Defnyddiwyd yr un dull i amcangyfrif yr ychwanegiad at y pris cyfanwerthu, ond cafodd hyn ei addasu i gyfrif am y dybiaeth bod y rhan fwyaf o fanwerthwyr yn cael eu weips gwlyb yn uniongyrchol gan gynhyrchwyr. Defnyddiwyd cod SIC 46 i amcangyfrif y 'masnach cyfanwerthu, ar wahân i gerbydau modur a beiciau modur', gyda 14% o ychwanegiad at y pris. Fel y trafodwyd yn flaenorol, dywedodd 78% o fanwerthwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar draws y DU eu bod yn cael eu weips gwlyb yn llwyr neu gan fwyaf yn uniongyrchol gan gynhyrchwyr. Felly, tybiwyd mai dim ond 22% o'r weips gwlyb sy'n dod drwy gyfanwerthwyr (mae Tabl 15 yn diweddaru amcangyfrif Defra ym mhrisiau 2025).

*Tabl 15:* Refeniw, ychwanegiad at y pris ac elw ar gyfer gwahanol fusnesau yn y gadwyn gyflenwi yn y DU (prisiau 2025) – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | Cyfanswm, 2021 (£m) | Ychwanegiad at y pris neu faint yr elw |
|---|---|---|
| **Refeniw manwerthu** | £1,975 | |
| ***Ychwanegiad at y pris manwerthu*** | £422 | 21% |
| **Refeniw cyfanwerthu** | £342 | |
| ***Ychwanegiad at y pris cyfanwerthu*** | £48 | 14% |
| **Refeniw cynhyrchwyr** | £1,505 | |
| ***Elw cynhyrchwyr*** | £222 | 15% |

7.46 Mae tynnu'r ychwanegiad at y pris manwerthu o refeniw manwerthu yn cyfateb i'r refeniw cyfanwerthu, os daw 100% o'r weips gwlyb drwy gyfanwerthwyr. Mae lluosi hyn â chyfran y weips gwlyb a ddaw drwy gyfanwerthwyr (22%) yn arwain at y refeniw cyfanwerthu gwirioneddol (yn y bôn, y 78% sy'n weddill yw'r refeniw i gynhyrchwyr pan werthir weips yn uniongyrchol i fanwerthwyr). Mae lluosi hyn â'r ychwanegiad at y pris cyfanwerthu wedyn yn cynhyrchu gwerth yr ychwanegiad at y pris cyfanwerthu. Mae tynnu gwerthoedd yr ychwanegiad at y prisiau manwerthu a chyfanwerthu o refeniw manwerthu yn cyfateb i refeniw cynhyrchwyr cyfun o werthu drwy gyfanwerthwyr ac yn uniongyrchol i fanwerthwyr.

7.47 Yna, cafodd refeniw cynhyrchwyr ei rannu â nifer y weips gwlyb a werthwyd i ddod o hyd i refeniw cyfartalog cynhyrchwyr fesul weip wlyb. Unwaith eto, tynnwyd yr ychwanegiad at y pris cynhyrchu o hyn i amcangyfrif cost mewnbwn (hynny yw, heb gynnwys costau cyflogaeth) cynhyrchu weips gwlyb. Cafodd cyfartaledd y pedwar cod SIC a amlinellwyd ym mharagraff ei ddefnyddio i amcangyfrif hyn.

*Tabl 16:* Amcangyfrif o refeniw fesul weip yn y DU ym mhrisiau 2025 (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | **2021** |
|---|---|
| **Refeniw cynhyrchwyr (£m)** | £1,505 |
| **Nifer y weips gwlyb (m)** | 29773 |
| **Refeniw fesul weip wlyb (£)** | £0.05 |

7.48 Yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU, dywedodd cynhyrchwyr wrthym fod y costau mewnbwn ar gyfer weips gwlyb di-blastig yn tueddu i fod yn uwch nag ar gyfer weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Roedd y ffigurau a roddwyd gan weithgynhyrchwyr yn amrywio o gynnydd o 5% mewn costau i gostau dair gwaith yn uwch. Roedd y canolrif 40% yn uwch. Felly, amcangyfrifwyd cost cynhyrchu ar wahân fesul weip wlyb ar gyfer weips gwlyb plastig a di-blastig (Tabl 17). Mae dadansoddiad Defra yn cydnabod y gallai'r gwahaniaeth hwn newid dros amser oherwydd arbedion maint neu arloesi (gostyngiad). Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd yn aros yn gyson dros y cyfnod arfarnu.

*Tabl 17:* Cost cynhyrchu fesul weip, plastig a di-blastig ar gyfer y DU (prisiau 2025) – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | **Costau mewnbwn (fesul weip)** | **Costau cyflogaeth (fesul weip)** | **Cyfanswm y gost (fesul weip)** | **Cyfanswm costau cynhyrchwyr, 2021 (m)** |
|---|---|---|---|---|
| **Plastig** | £0.034 | £0.008 | £0.043 | £477 |
| **Di-blastig** | £0.048 | £0.008 | £0.056 | £1,051 |
| **Pawb** | £0.043 | £0.008 | £0.051 | £1,528 |

7.49 Yna, lluoswyd y costau yn Nhabl 17 gydag amcangyfrif cyfanswm cost y cynhyrchydd, pan roddir cyfrif am gyfran y weips plastig o'i gymharu â'r weips di-blastig. Fe wnaethom dybio na fyddai'r cynnwys plastig yn effeithio ar gostau cyflogaeth oherwydd, drwy'r ymgynghoriad, dywedodd y rhan fwyaf o gynhyrchwyr y byddai'r un broses yn cael ei defnyddio i gynhyrchu weips

gwlyb plastig a di-blastig (edrychwch ar y costau newid i gael rhagor o fanylion).

7.50 Drwy ymchwil Defra ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU, roedd yn amlwg bod y pris manwerthu ar gyfer weips gwlyb di-blastig yn tueddu i fod ychydig yn uwch na weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, ar sail tebyg am debyg. Fe wnaeth dau fasnachwr mawr, sy'n rhoi'r gwaith o gynhyrchu eu brand weips eu hunain allan i gwmni arall (ac sydd, yn y bôn, yn 'ail-frandio') gadarnhau eu bod wedi gweld cynnydd yn y gost o gael y weips hyn (er bod un manwerthwr yn gallu mewnoli'r costau hyn a chadw'r pris manwerthu blaenorol) wrth iddyn nhw newid eu cynnyrch brand eu hunain o fod yn gynnyrch plastig i fod yn ddi-blastig. Mae hyn yn awgrymu bod cynnydd mewn prisiau manwerthu yn gysylltiedig â phrisiau gwerthu uwch gan gynhyrchwyr.

7.51 Daeth ymchwil Defra a thrafodaethau ar draws y DU gyda manwerthwyr i'r casgliad bod cynnydd o 10% ym mhrisiau manwerthu weips gwlyb ar sail tebyg am debyg. Mae rhagor o fanylion am ymchwil Defra ar gael yn yr adran prisiau i ddefnyddwyr, a oedd yn cymharu cost gwefan y manwerthwr ar gyfer weips plastig a di-blastig ar draws pedwar manwerthwr mawr.

7.52 Mae'r cynnydd hwn o 10% mewn refeniw cynhyrchwyr fesul weip wedi'i gynnwys yn yr elw i gynhyrchwyr (fesul weip) ar gyfer weips di-blastig. Cafodd dull tebyg ei ddefnyddio i amcangyfrif costau, lle canfuwyd y refeniw perthnasol fesul weip a oedd yn bodloni'r meini prawf bod y refeniw fesul weip 10% yn uwch ar gyfer weips di-blastig, mae'n rhaid i gyfanswm y refeniw ar gyfer pob weip gyfateb i amcangyfrif blaenorol o gyfanswm refeniw llinell sylfaen cynhyrchwyr.

*Tabl 18:* Elw fesul weip, plastig a di-blastig (prisiau 2025) – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | Cyfanswm y gost (fesul weip) | Refeniw cynhyrchwyr (fesul weip) | Elw (fesul weip) | Maint yr elw |
|---|---|---|---|---|
| **Plastig** | £0.043 | £0.056 | £0.014 | 24% |
| **Di-blastig** | £0.056 | £0.063 | £0.006 | 10% |
| **Popeth** | £0.051 | £0.060 | £0.009 | 15% |

7.53 Drwy amcangyfrif cyfanswm cost fesul weip, yn ogystal â'r refeniw fesul weip, roedd hyn yn caniatáu amcangyfrif elw'r cynhyrchydd fesul weip am weips gwlyb sy'n cynnwys plastig a weips gwlyb di-blastig. Yna, lluoswyd hyn â nifer y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig a weips di-blastig ym mhob senario i amcangyfrif yr elw o bob un. Mae'r gwahaniaeth yn cyfateb i'r golled neu'r cynnydd net mewn elw.

*Tabl 19:* Elw cynhyrchydd weips gwlyb (o'i gymharu â'r llinell sylfaen) o weips sy'n cynnwys plastig a weips di-blastig, £m – effaith gwaharddiad ar werthiant yng Nghymru (cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Plastig** | £0.0 | -£7.2 | -£4.1 | -£4.0 | -£4.0 |
| **Di-blastig** | £0.0 | £3.2 | £1.8 | £1.8 | £1.8 |
| **Elw net** | £0.0 | -£3.9 | -£2.2 | -£2.2 | -£2.2 |

### Costau cludiant (Cynhyrchwyr / manwerthwyr weips gwlyb)

7.54 Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU wrthym fod weips gwlyb di-blastig yn drymach na weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Y rheswm am hyn yw bod plastig yn cael ei ddefnyddio i wneud y weip yn wydn ac wrth ei dynnu o weips di-blastig, mae'n cael ei ddisodli gan ddeunydd trymach. O ganlyniad, mae cynnyrch trymach yn arwain at gostau uwch i gludo weips gwlyb oddi wrth y gweithgynhyrchwyr i'r manwerthwyr.

7.55 Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad ledled y DU, tybiwyd bod weips gwlyb di-blastig 65% yn drymach na'r fersiwn sy'n cynnwys plastig. Mae hyn yn cyfateb i 1.2g fesul weip wlyb. Yn y cyfrifiadau isod, rydym wedi tybio bod tunnell ychwanegol o bwysau yn cynyddu'r defnydd o danwydd 0.04 litr y km yn unol â chyhoeddiad Natural Resources Canada.

7.56 Tybir bod pob weip wlyb yn teithio 240km ar gyfartaledd o'r cynhyrchydd i'r siop manwerthu. Mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad mewnol Llywodraeth Cymru. Mae'n hysbys bod gan nifer o gynhyrchwyr mawr yn y DU (sydd â chyfran fawr o farchnad defnyddwyr y DU) ffatrïoedd yng ngogledd Cymru. Canfuwyd y pellter i deithio ar ffordd i ddinas neu dref fawr ym mhob awdurdod lleol. Yna, cafodd cyfran y siopau manwerthu i gyd yng Nghymru o bob ardal ei defnyddio fel pwysoliad i amcangyfrif y pellter teithio ar gyfartaledd.

7.57 Defnyddiwyd pris disel sef £1.51 (hynny yw, pris 2025). Ar sail yr uchod, byddai pob 1,000 o weips gwlyb, sy'n newid o fod yn rhai sy'n cynnwys plastig i fod yn rhai di-blastig, yn costio £0.02 yn fwy o ran costau tanwydd. Mae'n debygol y bydd y costau hyn yn cael eu rhannu rhwng y cynhyrchwyr a'r manwerthwyr.

*Tabl 20:* Costau tanwydd, tanwydd a phwysau ychwanegol - effaith Cymru - (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysau ychwanegol (tunnell)** | - | 641 | 363 | 360 | 355 |
| **Tanwydd ychwanegol (litr)** | - | 6,195 | 3,512 | 3,475 | 3,429 |
| **Cost tanwydd ychwanegol (£'000)** | £0.00 | £9.34 | £5.29 | £5.24 | £5.17 |

### Cynhyrchwyr yn colli elw (Cynhyrchwyr plastig primaidd)

7.58 Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r plastig primaidd a ddefnyddir i gynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn cael ei gynhyrchu yn y DU. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cynhyrchwyr hyn yn colli elw. Er nad oes gennym ddata ar gyfran y plastig sy'n cael ei ddefnyddio'n benodol mewn weips gwlyb sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU, tybiwyd bod ~60% o'r plastig sy'n cael ei ddefnyddio yn y DU yn cael ei gynhyrchu'n ddomestig (mae hyn wedi'i nodi'n fanylach yn yr adran allyriadau wrth gynhyrchu).

7.59 Fel y disgrifir yn yr adran allyriadau wrth gynhyrchu yn nes ymlaen, amcangyfrifwyd bod weip wlyb gyffredin sy'n cynnwys plastig yn pwyso 1.6 gram, ac mae 1.1 gram ohoni'n blastig. Tybir bod 61% o hyn yn cael ei gynhyrchu, ar gyfartaledd, yn y DU. Defnyddir amcangyfrifon o boblogaeth busnesau oddi ar wefan Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, sy'n seiliedig ar 1.7 miliwn tunnell o blastig sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU, a gwerthiant y diwydiant cynhyrchu plastig primaidd yn y DU o ~£6.3 biliwn (prisiau 2025), sy'n seiliedig ar adroddiad gan Ffederasiwn Plastigau Prydain. Byddai hyn yn awgrymu, am bob 1,000 o weips gwlyb sy'n cael eu cynhyrchu, fod diwydiant plastig y DU yn cael refeniw blynyddol o £2.96. Gan ddefnyddio data ABS y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 20.16, 'cynhyrchu plastigau mewn ffurfiau primaidd', amcangyfrifir bod maint yr elw i gynhyrchwyr plastig yn 20%. Felly, mae cynhyrchwyr plastig primaidd yn y DU yn gwneud elw o £0.58 am bob 1,000 o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig sy'n cael eu gwerthu yn y DU.

7.60 I gyfrifo'r effaith ar gynhyrchwyr plastig primaidd, mae hyn wedyn yn cael ei luosi â nifer y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn y llinell sylfaen ac yn opsiwn un. Amcangyfrifir colled elw sy'n amrywio o £0.17m i £0.31m y flwyddyn ar gyfer cynhyrchwyr plastigau primaidd yng Nghymru (Tabl 21).

*Tabl 21:* Elw cynhyrchwyr plastig primaidd yn y DU o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig (£m) - effaith Cymru - (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen** | £0.34 | £0.31 | £0.18 | £0.17 | £0.17 |
| **Opsiwn 1** | £0.34 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| **Gwahaniaeth** | £0.00 | -£0.31 | -£0.18 | -£0.17 | -£0.17 |

### *Costau newid (Cynhyrchwyr weips gwlyb)*

7.61 Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r newid o gynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i rai heb blastig. O'r gweithgynhyrchwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU, dywedodd 68% fod cynhyrchu weips gwlyb di-blastig yn defnyddio'r un peiriannau a phrosesau cyffredinol â chynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Er na fyddai'n rhaid i'r cynhyrchwyr hyn brynu peiriannau newydd, fe wnaethon nhw nodi costau eraill roedden nhw'n disgwyl eu hwynebu, er enghraifft ymchwil a datblygu, addasu peiriannau presennol, a hyfforddi staff.

7.62 Mewn ymatebion testun rhydd, dywedodd nifer o gynhyrchwyr y byddai cyfnod newid hirach yn helpu i leihau eu costau. Er enghraifft, dywedodd un cynhyrchydd y byddai costau cyfnod newid o flwyddyn i ddwy flynedd 50% yn llai na'r costau pe bai'r cyfnod newid yn flwyddyn neu lai. Dywedodd cynhyrchydd arall hefyd y byddai cyfnod newid o rhwng dwy a thair blynedd yn arwain at gostau is. Drwy fabwysiadu cyfnod newid o 18 mis ar draws y DU yn y rheoliadau, rydym felly'n disgwyl i hyn leihau'r costau newid yn sylweddol.

7.63 Er mwyn amcangyfrif y costau newid, fe wnaethom ddefnyddio ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi cael eu hehangu i'r farchnad lawn gan ddefnyddio gwybodaeth am y gyfran o'r farchnad. Cafodd y rhain eu rhannu dros ddwy flynedd gyntaf y cyfnod arfarnu yn unol â'r cyfnod newid o 18 mis, gan arwain at gyfanswm cost o £4.7m, (Tabl 22).

*Tabl 22:* Costau cyfnod newid i gynhyrchwyr weips gwlyb (£m) ar gyfer y DU a Chymru - (o asesiad Defra o'r effaith economaidd ar gyfer 2024, heb ei gyhoeddi a Chyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | **Costau cyfnod newid yn y DU gan gynnwys allforion** | **Costau cyfnod newid yn y DU - domestig** | **Cymru - domestig** |
|---|---|---|---|
| Canolig | £46.4 | £30.1 | £1.4 |
| Mawr | £108.2 | £70.3 | £3.3 |
| Cyfanswm | £154.5 | £100.5 | £4.7 |
| **Cyfanswm y flwyddyn (dros 2 flynedd)** | | | £2.3 |

### *Costau cyfnod newid (Manwerthwyr)*

7.64 Disgwylir y bydd cyfnod newid o 18 mis yn rhoi digon o amser i fanwerthwyr werthu'r stoc sydd ganddyn nhw dros ben a rhoi cynnyrch newydd yn eu cylch adolygu cynnyrch arferol. Felly, credwn y bydd costau i fanwerthwyr yn isel, ac mae hyn yn cael ei ategu'n rhannol gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y DU. Fodd bynnag, bach iawn o fusnesau manwerthu a ymatebodd i gwestiynau am gost y cyfnod newid, ac nid oedd y rhai a ymatebodd yn darparu digon o wybodaeth am gostau, ar y cyfan. Dywedodd un manwerthwr y byddai'r costau ar eu hisaf pe byddai'r cyfnod newid yn ddwy i dair blynedd. Dywedodd un manwerthwr mawr, sydd eisoes wedi newid i weips di-blastig, ei fod wedi llwyddo i newid mewn blwyddyn, gan ddweud mai bach fyddai'r costau. Dywedodd nifer o fanwerthwyr nad oedden nhw'n gwybod beth fyddai'r costau, a dywedodd dau fanwerthwr arall a oedd eisoes wedi newid, y byddai'r gost yn sero iddyn nhw.

7.65 Er mwyn sicrhau nad oedd costau'n cael eu tanamcangyfrif, rydym wedi cyfrifo cost diweddaru'r stocrestr a phrisiau ar gyfer cynnyrch newydd fel rhan o'n hasesiad. Gan na ddarparwyd unrhyw gostau penodol gan fanwerthwyr yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU, edrychwyd ar ddulliau perthnasol a ddefnyddiwyd mewn dadansoddiad mewn mannau eraill i ddod o hyd i ffordd briodol o amcangyfrif y costau hyn. Tybiwyd y byddai'r costau'n gymesur â nifer y cynhyrchion sy'n cynnwys weips gwlyb sy'n cael eu gwerthu.

7.66 I amcangyfrif hyn, edrychwyd ar wefannau pedwar manwerthwr mawr i bennu nifer y cynhyrchion unigol (unedau cadw stoc) a werthwyd. Cafodd hyn ei gyfrif yn benodol ar gyfer weips babi, sy'n cyfrif am 60% o'r farchnad weips gwlyb i ddefnyddwyr. Ar gyfartaledd, roedd gan y manwerthwyr hyn 33 o unedau cadw stoc unigol ar gyfer weips babi. Cafodd hyn ei gynyddu gan y gyfran o'r farchnad weips babi i amcangyfrif cyfanswm nifer yr unedau cadw stoc weips gwlyb, hynny yw, 55 fesul manwerthwr mawr. Tybiwyd y byddai 38% o'r rhain yn cynnwys plastig (yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o'r weips gwlyb sy'n gyfran o gyfanswm y weips gwlyb, a drafodir yn yr adran llinell sylfaen), ac fe arweiniodd hyn at amcangyfrif o 20 uned cadw stoc ar gyfer weips gwlyb sy'n cynnwys plastig fesul manwerthwr mawr.

7.67 Tybir y bydd gan fanwerthwyr llai lai o unedau cadw stoc. I ddechrau, dyfeisiwyd dull o leihau gan ddefnyddio trosiant fesul manwerthwr ar gyfer manwerthwyr o faint gwahanol (gan ddefnyddio data poblogaeth busnesau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). Ond arweiniodd hyn at amcangyfrif afrealistig o isel ar gyfer nifer y cynhyrchion weips gwlyb sy'n cael eu gwerthu gan fanwerthwyr bach a micro. Yn hytrach, defnyddiwyd dull sylfaenol, ond gofalus o uchel, lle byddai gan fanwerthwyr canolig 15 o gynhyrchion, manwerthwyr bach 10 o gynhyrchion a micro fanwerthwyr bump o gynhyrchion.

7.68 Ar sail adborth rhanddeiliaid i Asesiad Effaith Llywodraeth y DU ar godi tâl am fagiau plastig, tybiwyd y byddai'n cymryd 1.5 awr i weithwyr fesul uned cadw stoc, fesul siop, ychwanegu math newydd o gynnyrch. Rydym wedi defnyddio'r dybiaeth hon ac wedi defnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n dangos canolrif cyflog manwerthu ar gyfer 2025 o £18.8, gyda chynnydd o 22% ar gyfer costau llafur nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau. Arweiniodd hyn at amcangyfrif o tua £100 i £550 y siop, yn dibynnu ar faint y busnes.

7.69 Lluoswyd y gost fesul siop â nifer y siopau (gan ddefnyddio data unedau lleol) ym mhob un o'r Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol hyn, yn ôl maint, i ganfod cyfanswm costau newid o ran manwerthu. Yng Nghymru, amcangyfrifwyd bod y costau ychydig o dan filiwn o bunnoedd (Tabl 23).

*Tabl 23:* Costau newid o ran manwerthu yng Nghymru – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| **Maint y siop (cyflogaeth)** | **Siopau Cymru** | **Uned Cadw Stoc fesul siop** | **Cost fesul siop** | **Cyfanswm y gost, £m** |
|---|---|---|---|---|
| Micro | 3,043 | 5 | £141 | £0.43 |
| Bach | 1,347 | 10 | £281 | £0.38 |
| Canolig | 192 | 15 | £422 | £0.08 |
| Mawr | 56 | 20 | £563 | £0.03 |
| **Cyfanswm (dros 2 flynedd)** | | | | £0.92 |

## <u>Costau Awdurdodau Lleol</u>

### Costau gorfodi

7.70 Bydd costau'n codi sy'n gysylltiedig â gwasanaethau archwilio a gorfodi'r gyfraith i gefnogi'r gwaharddiad. Bydd gwaith yn cael ei wneud gydag Awdurdodau Lleol Cymru i sefydlu'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o orfodi.

7.71 Mae costau gorfodi yn ymwneud â'r baich ychwanegol a amcangyfrifir i awdurdodau lleol Cymru orfodi'r polisi, gan ddefnyddio dull adweithiol, hynny yw, dim ond ar ôl cwyn y mae archwiliadau'n digwydd. Bydd busnesau nad ydyn nhw'n cydymffurfio yn wynebu costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion sy'n cael eu hatafaelu os byddan nhw'n cael eu harchwilio. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn wedi cael eu cynnwys yn y model, oherwydd bydden nhw'n deillio o fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith.

7.72 Mae'r tybiaethau a'r dull cyfrifo ar gyfer y costau gorfodi yn seiliedig ar wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar gyfer Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024 ac y cytunwyd arnynt gyda Safonau Masnach Cymru. Mae'r model hwn yn tybio mai dim ond yn ystod tair blynedd gyntaf y polisi y bydd costau gorfodi yn codi (hynny yw, dim ond yn ystod tair blynedd gyntaf y cyfnod arfarnu) oherwydd tybir y bydd pob busnes yn cydymffurfio ar ôl y cyfnod hwn.

*Costau Hyfforddi*

7.73 Rydym yn rhagdybio y bydd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru yn wynebu cost gweinyddu untro wrth ymgyfarwyddo â'r pwerau newydd. Yn 2022, cynhaliodd Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach ymchwil i bennu'r gyfradd adennill costau lawn ar gyfer swyddogion o fewn Safonau Masnach. Nid cyfradd cyflog oedd hon, ond roedd yn cynnwys argostau cyflogaeth ac argostau nad oedd yn ymwneud â chyflogaeth. Roedd y ffigur ar gyfer Cymru ychydig yn is nag ar gyfer Lloegr ac wedi'i gyfrifo ar gyfradd o £84.8 yr awr (prisiau 2025).

7.74 Gan ddefnyddio'r dybiaeth o 90 munud i bob awdurdod lleol, gallai'r newidiadau arfaethedig gynnwys cost ymgyfarwyddo untro yn y broses newid o £127.15 y swyddog, i bob awdurdod lleol. Rydym yn rhagweld y bydd angen i wyth swyddog ar gyfartaledd ymhob Awdurdod Lleol ddilyn hyfforddiant. Bydd hyn yn arwain at gost o £1,017 i bob Awdurdod Lleol a £22,379 i gyd am bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd y costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn codi yn ystod blwyddyn gyntaf y cyfnod arfarnu.

*Costau archwilio*

7.75 Rydym yn tybio na fydd 1% o fusnesau o fewn y cwmpas yn cydymffurfio. Mae hyn yn adlewyrchu y bydd llawer o'r busnesau sydd o fewn y cwmpas eisoes wedi symud oddi wrth ddefnyddio'r eitemau sydd wedi'u gwahardd (er enghraifft, rydym yn amcangyfrif mai dim ond 38% o weips gwlyb sy'n cael eu gwerthu i gynhyrchwyr ar hyn o bryd sy'n cynnwys plastig) a bod y syniad o

waharddiad ar weips gwlyb sy’n cynnwys plastig wedi bod yn gyhoeddus ers blynyddoedd. Rydym yn tybio, o blith y busnesau nad ydyn nhw’n cydymffurfio, mai dim ond 10% fydd yn cael eu harchwilio. Mae hyn oherwydd nifer isel o gwynion a chamau gorfodi o ganlyniad i hynny yn achos gwaharddiadau tebyg blaenorol.

7.76 Roedd trafodaethau gyda Safonau Masnach Cymru mewn perthynas â’r gwaharddiad fêps untro yn awgrymu y bydd archwilio eiddo yn cymryd dwy awr o amser swyddog bob blwyddyn ar gyfradd o £84.8 yr awr. Gan fod manwerthwyr mawr a chadwyni archfarchnadoedd eisoes wedi dechrau symud oddi wrth weips sy’n cynnwys plastig, nid ydym yn rhagweld y bydd angen archwiliadau yn y mathau hyn o safleoedd. Gan ddefnyddio’r tybiaethau hyn, rydym yn amcangyfrif mai £786 fydd cost yr archwiliad cyntaf.

$$Cost \text{ yr archwiliad cyntaf} = \text{nifer yr eiddo a archwiliwyd x yr amser a dreuliwyd (mewn oriau)} \times \text{ y gost fesul awr}$$

$$Cost \text{ yr archwiliad cyntaf} = 4.6 \times 2 \times £84.8 = £786$$

7.77 Rydym yn tybio y bydd 25% heb fod yn cydymffurfio yn dilyn yr ymweliad cychwynnol (yn unol â’n hasesiad blaenorol ar gyfer fêps). Wrth ymgysylltu â Safonau Masnach Cymru, yr awgrym yw y bydd archwilio eiddo sy’n gwerthu’r eitemau hyn yr ail dro yn cymryd tair awr o amser swyddog bob blwyddyn ar gyfradd o £82.24 yr awr. Rydym yn amcangyfrif y bydd cost flynyddol y camau cyfreithiol sy’n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio yr ail dro, yn £2.8k (wedi’i gyfrifo gan ddefnyddio prisiau 2025). Rydym wedi dosrannu’r gost gyfreithiol o Asesiad Effaith Defra gan ystyried cyfran y siopau manwerthu yng Nghymru, sef tua 6.3%. Rydym hefyd wedi ystyried costau’r cyngor di-dâl a roddir i fusnesau. Mae hyn yn arwain, ar gyfer pob awdurdod lleol, at saith awr o amser swyddog bob blwyddyn ar gost o £84.8 yr awr sy’n costio tua £13k y flwyddyn i bob awdurdod lleol.

7.78 Felly, cyfanswm y gost flynyddol o orfodi i awdurdodau lleol a briodolir i gostau archwilio a chamau cyfreithiol yw £4k. Dim ond am dair blynedd gyntaf y polisi y disgwylir i gostau gorfodi godi ar ôl y cyfnod newid. Mae cyfanswm y costau, gan gynnwys hyfforddiant a chyngor di-dâl, yn arwain at gost gwerth presennol o £45k dros y cyfnod arfarnu.

## Costau i Lywodraeth Cymru

7.79 Rydym yn rhagweld y bydd cost untro o £50,000 i Lywodraeth Cymru o ran datblygu canllawiau dwyieithog, cyllid i gefnogi awdurdodau lleol i ddiweddaru canllawiau, cyfathrebu i gefnogi’r gwaith o gyflwyno’r rheoliadau a’r costau staff sy’n gysylltiedig â rhoi’r cyfan ar waith.

## Costau rheoli gwastraff

7.80 Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae weips gwlyb di-blastig yn drymach na weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Gan fod cost rheoli gwastraff sy'n weddill yn cael ei chodi fesul tunnell fel arfer, bydd y cynnydd mewn pwysau gwastraff yn cynyddu costau rheoli gwastraff. Fel sy'n cael ei drafod yn yr adrannau allyriadau, rydym yn tybio y bydd 4% o weips gwlyb yn mynd i'r safle tirlenwi a 74% yn cael eu llosgi (tybir y bydd y gweddill yn cael eu gwaredu mewn carthffosydd). Fe wnaethom ddefnyddio cyfradd treth dirlenwi o £126 y dunnell, ffi glwyd tirlenwi (gan gynnwys costau cludiant) o £96 y dunnell a ffi glwyd llosgi (troi gwastraff yn ynni) (gan gynnwys cludiant) o £129 y dunnell (prisiau 2025). Cafodd hyn ei luosi â'r cynnydd cyfartalog ym mhwysau weip wlyb, a arweiniodd at amcangyfrif o tua £0.13 o gostau rheoli gwastraff ychwanegol fesul 1000 o weips gwlyb.

7.81 Gan mai dim ond i weips gwlyb i ddefnyddwyr y bydd y gwaharddiad yn berthnasol, tybir y bydd y rhain yn cael eu gwaredu mewn gwastraff cartrefi. Felly, bydd costau rheoli gwastraff yn dod i'r awdurdodau lleol. Mae amcangyfrif o hyn yn nhabl 24 isod.

*Tabl 24:* Costau rheoli gwastraff ychwanegol i ALlau (£) – effaith Cymru – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Treth Dirlenwi** | £0 | £3,000 | £1,700 | £1,700 | £1,700 |
| **Ffioedd clwydi tirlenwi** | £0 | £2,300 | £1,300 | £1,300 | £1,300 |
| **Ffioedd clwydi llosgi (Troi Gwastraff yn Ynni)** | £0 | £61,200 | £34,700 | £34,300 | £33,900 |

## Effeithiau amgylcheddol

### Allyriadau wrth gynhyrchu

7.82 Mae cynhyrchwyr wedi dweud wrthym fod y cyfarpar a'r broses ar gyfer gwneud weips gwlyb plastig a di-blastig yr un fath ar y cyfan (fel y trafodwyd yn gynharach), ac mae disgwyl i'r prif wahaniaeth o ran yr allyriadau ddeillio o echdynnu a chynhyrchu gwahanol ddeunyddiau crai.

7.83 Yn ôl papur ymchwil yn 2023 sy'n dwyn y teitl Do flushed biodegradable wet wipes really degrade? gan Allison et al, dim ond un dadansoddiad cylch bywyd y gwyddom amdano sydd o weips gwlyb naturiol (fisgos). O hyn, tybir bod y weips gwlyb plastig cyffredin wedi'u gwneud o 70% PET a 30% fisgos, ond yn ôl papur yn 2023 gan Zhang et al Life-cycle environmental impact assessment and plastic pollution prevention measures of wet wipes, mae'r weips gwlyb di-blastig cyffredin yn cael eu gwneud o 100% fisgos. Fodd bynnag, drwy'r ymgynghoriad, dywedodd cynhyrchwyr wrthym, gan fod plastig yn cael ei ddefnyddio i roi gwytnwch, mae angen mwy o ddeunyddiau i gynhyrchu weips gwlyb di-blastig o'r un ansawdd. Dywedodd cynhyrchwyr

wrthym fod pwysau weips gwlyb plastig cyffredin yn 56g y metr sgwâr, a bod weips gwlyb di-blastig tua 50% yn drymach (ymateb cyffredin i'r ymgynghoriad gan wneuthurwyr a manwerthwyr), hynny yw, 86g y metr sgwâr. Rydym yn tybio bod y weip wlyb gyffredin i ddefnyddwyr rhwng 0.023 a 0.034 metr sgwâr (maint canolog/canolrif o 0.029 metr sgwâr). Daw'r wybodaeth hon o sawl ffynhonnell gyhoeddus gan gynnwys erthyglau ar-lein fel gwefan GearLab testing a Chyfeillion y Ddaear. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hategu gan adborth gan gynhyrchydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

7.84 O bapur Zhang yn 2021, Life-cycle environmental impact assessment and plastic pollution prevention measures of wet wipes, mae fisgos wedi'i wneud o dros 99% o fwydion coed, ac mae dadansoddiad o gylch bywyd yn awgrymu bod cynhyrchu 1 dunnell yn arwain at botensial cynhesu byd-eang o 1.46t o Co2e (nwyon tŷ gwydr sy'n cyfateb i garbon deuocsid). Yn seiliedig ar ffigurau trosi nwyon tŷ gwydr yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net (DESNZ), mae cynhyrchu 1 dunnell o blastig yn achosi 4.03 t o Co2e. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r allyriadau hyn yn digwydd yn y DU. I fesur newidiadau mewn allyriadau tiriogaethol, mae'r ffactorau hyn yn cael eu lluosi â chyfran y deunydd crai sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU.

7.85 Yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 gan y Rhwydwaith Ôl-Troed Dŵr, tybir nad oes unrhyw fisgos yn cael ei gynhyrchu yn y DU. Ar gyfer yr allyriadau wrth gynhyrchu plastig, defnyddiodd Defra ddull modelu ffactorau carbon heb ei gyhoeddi a ddefnyddir gan WRAP. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio mewn Asesiadau Effaith blaenorol gan Lywodraeth y DU, a chymerwyd data masnach (data mewnforio, allforio a gwerthu) o Eurostat i amcangyfrif cyfran y deunyddiau crai sy'n cael eu defnyddio yn y DU. Ar sail hyn, tybir bod 61% o'r plastig a ddefnyddir mewn gweithgynhyrchu yn y DU yn cael ei gynhyrchu yn y DU. Nid yw hyn yn benodol i gynhyrchu weips gwlyb ond fe'i defnyddir i gynrychioli. Dangosir hyn yn nhabl 25 isod. Gan nad yw'r DU yn cynhyrchu unrhyw ffabrig di-blastig sy'n cael ei ddefnyddio i wneud weips gwlyb, mae'r ffigur ar gyfer y DU yn sero.

*Tabl 25:* Allyriadau wrth gynhyrchu (tunnell o Co2e) fesul 1 metr sgwâr (o asesiad Defra o'r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| | DU | Byd-eang |
|---|---|---|
| **Plastig** | 3.231 | 6.118 |
| **Di-blastig** | 0.000 | 4.508 |

7.86 Mae'r ffactorau hyn yn cael eu lluosi â nifer y weips gwlyb plastig a di-blastig yn y llinell sylfaen a'r opsiwn i amcangyfrif yr allyriadau wrth gynhyrchu ym mhob senario. Mae gwerthoedd carbon yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net yn cael eu defnyddio i gyfleu'r effeithiau hyn ar ffurf ariannol (Tabl 26).

*Tabl 26:* Arbedion allyriadau wrth gynhyrchu yn y DU (o'u cymharu â'r llinell sylfaen) – effaith Cymru (amcangyfrifir o asesiad Defra o'r effaith economaidd 2024, heb ei gyhoeddi)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arbedion Co2e (t)** | - | 1,710 | 969 | 959 | 946 |
| **Gwerth (£m)** | £0.00 | £0.55 | £0.32 | £0.33 | £0.33 |

### *Allyriadau wrth waredu*

7.87 Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ddiwedd oes yn dibynnu ar y ffordd o waredu a chyfansoddiad deunyddiau'r cynnyrch. Felly, gallai newidiadau i gyfansoddiad deunydd weips gwlyb arwain at newid mewn allyriadau. Tybir y bydd weips gwlyb naill ai'n cael eu fflysio i rwydweithiau'r carthffosydd, neu'n cael eu gwaredu drwy gasgliadau gwastraff cartrefi. Bydd rhai weips gwlyb yn cael eu taflu fel sbwriel, ond at ddibenion y dadansoddiad hwn, gan fod hyd yn oed weips gwlyb bioddiraddadwy yn cymryd amser i ddadelfennu, rydym yn tybio y bydd weips gwlyb sy'n cael eu taflu fel sbwriel yn cael eu casglu a'u gwaredu fel gwastraff yn y pen draw. Gallai rhai weips gwlyb sy'n cael eu taflu fel sbwriel fynd i'r dyfrffyrdd ac, yn y pen draw, i'r môr. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth i gyfrifo'r effeithiau hyn a'u cyfleu ar ffurf ariannol.

7.88 Canfu ymchwil gan Water UK fod 22% o bobl yn cyfaddef eu bod yn fflysio weips gwlyb. Rydym, felly, yn tybio bod 22% o'r weips gwlyb a ddefnyddir yng Nghymru yn cael eu fflysio i rwydweithiau'r carthffosydd. Gan nad oes modd ailgylchu weips gwlyb drwy lwybrau prif ffrwd, rydym yn tybio bod y 78% o'r weips sy'n weddill yn cael eu gwaredu drwy safleoedd tirlenwi neu brosesau troi gwastraff yn ynni. Defnyddir data rheoli gwastraff a gesglir gan yr Awdurdod Lleol i amcangyfrif cyfran gwastraff ALl sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a safleoedd troi gwastraff yn ynni. Mae hyn yn arwain at amcangyfrif y bydd 74% o weips gwlyb yn cael eu gwaredu drwy brosesau troi gwastraff yn ynni a 4% drwy dirlenwi yng Nghymru.

*Tabl 27:* Llwybrau gwaredu tybiedig ar gyfer weips gwlyb i ddefnyddwyr yng Nghymru – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | Cyfran |
|---|---|
| **Carthffosydd** | 22% |
| **Tirlenwi** | 4% |
| **Llosgi** | 74% |
| **Cyfanswm** | 100% |

7.89 Gall dewisiadau bioddiraddadwy yn lle weips gwlyb sy'n cynnwys plastig arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn safleoedd tirlenwi oherwydd, yn wahanol i blastig, mae deunyddiau naturiol (fel fisgos sy'n cael ei wneud

bron yn gyfan gwbl o fwydion pren) yn diraddio, gan ryddhau carbon sydd wedi'i fewnblannu.

7.90 Pan fydd deunyddiau'n cael eu gwaredu drwy eu llosgi, maen nhw'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r llosgi'n adfer ynni drwy ddefnyddio'r gwres sy'n cael ei gynhyrchu i redeg tyrbinau stêm (a elwir yn 'Troi Gwastraff yn Ynni'). Felly, mae rhai o'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru yn cael eu gwrthbwyso gan y pŵer sy'n cael ei gynhyrchu, gan leihau faint o bŵer sy'n deillio o danwydd ffosil y mae angen ei gyflenwi i'r grid cenedlaethol. Mewn rhai achosion gall hyn arwain at arbedion net o ran allyriadau cadarnhaol drwy anfon mathau penodol o wastraff ar gyfer prosesau llosgi gwastraff i greu ynni. Mae allyriadau plastig yn aml yn uwch na deunyddiau naturiol, ac felly disgwylir i weips gwlyb di-blastig fod â llai o allyriadau ynni na phlastig wrth droi gwastraff yn ynni.

7.91 Tybir y bydd yr holl weips gwlyb sy'n mynd i'r ffrwd gwastraff gweddilliol yn y DU yn cael eu gwaredu yn y DU. Yn 2021 cafodd llai na 10% o wastraff gweddilliol y DU ei allforio i'w losgi dramor (Tanwyddau yn Deillio o Sbwriel). Mae hyn yn tueddu i fod yn wastraff masnachol a diwydiannol fel y nodir yn y papur canlynol a gyhoeddwyd gan Tolvik UK.

*Tabl 28:* Co2e (t) fesul 1 metr sgwâr (o asesiad Defra o'r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| | Tirlenwi | Troi Gwastraff yn Ynni | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Plastig** | 0.3 | 1.0 | 1.5 |
| **Di-blastig** | 0.8 | -0.5 | -1.0 |

7.92 Mae'r ffactorau hyn yn cael eu lluosi â nifer y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ac yn ddi-blastig yn y llinell sylfaen a'r opsiwn i amcangyfrif yr allyriadau wrth gynhyrchu ym mhob senario (tabl 28 uchod); defnyddiwyd gwerthoedd carbon yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net i gyfleu'r effeithiau hyn ar ffurf ariannol yn nhabl 29 isod.

*Tabl 29:* Arbedion allyriadau wrth waredu (o'u cymharu â'r llinell sylfaen) – Effaith Cymru – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arbedion Co2e (t)** | - | 1,304 | 739 | 732 | 722 |
| **Gwerth (£m)** | £0.00 | £0.42 | £0.25 | £0.25 | £0.26 |

### *Allyriadau cludiant*

7.93 Fel y trafodwyd, mae weips gwlyb di-blastig yn drymach na weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Fel y nodir yn yr adran effaith busnes, rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd. Bydd hyn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Cafodd y dull o gyfrifo'r cynnydd yn y defnydd o danwydd (mewn litrau) ei nodi yn yr adran costau busnes. Yna, cafodd hyn ei

gymhwyso i ffactorau trosi carbon yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net ar gyfer tanwydd disel. Mae'r rhain yn awgrymu bod pob litr o ddisel sy'n cael ei ddefnyddio yn arwain at 2.66kg o Co2e; defnyddiwyd gwerthoedd carbon yr Adran Diogelu Ynni a Sero Net i gyfleu'r allyriadau hyn ar ffurf ariannol.

*Tabl 30:* Cynnydd mewn allyriadau cludiant – Effaith Cymru – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | 2024 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tanwydd ychwanegol (litr)** | - | 6,195 | 3,512 | 3,475 | 3,429 |
| **Co2e (t)** | 0 | 16 | 9 | 9 | 9 |
| **Gwerth Co2e (£'000)** | £0.00 | £5.25 | £3.12 | £3.18 | £3.23 |

### Manteision heb werth ariannol

*Gostyngiad mewn microblastigau yn yr amgylchedd (heb werth ariannol)*

7.94 Ymchwil Yn y papur yn 2021, Discharge of microplastics fibres from wet wipes in aquatic and solid environments under different release conditions, canfuwyd bod ffibrau/gronynnau plastig llai a micro mewn weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, a bod y rhain yn cael eu rhyddhau pan fydd y weips gwlyb yn dadelfennu mewn dŵr ac ar dir. Os bydd y weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn cael eu gwaredu drwy garthffosydd neu wrth gael eu taflu fel sbwriel, yna bydd microblastigau'n mynd i'r amgylchedd. Pan fydd bywyd y môr yn llyncu plastig, gall y tocsinau mewn microblastigau gael eu trosglwyddo i'r gadwyn fwyd a gall pobl eu hamlyncu fel y nodwyd gan y National Geographic. Mae adroddiad gan World Wildlife Fund yn amcangyfrif bod pobl yn bwyta 5g o blastig yr wythnos o'r amgylchedd – sy'n cyfateb i faint cerdyn credyd. Mae ymchwil wedi dod o hyd i ficroblastigau mewn gwaed dynol hefyd. Hefyd, mewn astudiaeth in vitro, lle roedd celloedd alfeolaidd dynol yn dod i gysylltiad â microblastigau polystyren, gwelwyd bod hyn yn atal proses lluosogi celloedd a gwelwyd newidiadau mewn morffoleg celloedd. Er bod llawer o astudiaethau'n cofnodi bod anifeiliaid a phobl yn bwyta microblastigau, er enghraifft y rhai a gynhyrchir gan Sefydliad Iechyd y Byd ac mewn papurau gwyddonol, nid yw gwir raddfa unrhyw effaith ar iechyd anifeiliaid a phobl yn glir o hyd.

7.95 Byddai gwahardd cyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn lleihau faint o ficroblastigau sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd. Fodd bynnag, am y rhesymau uchod, nid yw wedi bod yn bosibl mesur y manteision hyn.

### Posibilrwydd o lai o gostau glanhau sbwriel

7.96 Mae'n bosibl y byddai gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y sbwriel yn amgylcheddau'r tir a'r môr. Er na fyddai gwaharddiad yn lleihau'r achosion o daflu sbwriel, mae'n bosibl y gallai math arall o ddeunydd weip wlyb bydru'n gynt na deunydd plastig, a

gallai hyn arwain at weld llai o weips gwlyb fel sbwriel ar draws pob amgylchedd. Byddai hyn yn arwain at leihau costau casglu sbwriel awdurdodau lleol. Nid yw’r dystiolaeth bresennol yn bendant eto ynghylch a oes gan fath arall o ddeunydd weip wlyb gyfradd diraddio gyflymach na phlastig.

7.97 Canfu ymchwil gan Allison et al yn 2023 yn ‘Do flushed biodegradable wet wipes really degrade? fod ffeibrau seliwlos mewn weips gwlyb yn gallu cael eu darnio’n hawdd. Ond nid yw hyn, yn aml, yn bioddiraddio o dan amodau amgylcheddol ac felly mae’n gallu dal i fodoli yn yr amgylchedd. Er gwaethaf hyn, mae adnoddau eraill yn awgrymu bod cydran seliwlos y weips gwlyb yn cael ei bioddiraddio (O’Briain et al 2020, Demain et al., 2005; Leschine, 1995; McDonald et al., 2012; Smith, 1994; Song et al., 2013). Mae Allison et al hefyd yn cyfeirio at ymchwil gan Zhang a ddangosodd, er bod modd gwneud weips gwlyb effeithiol o ffibrau fisgos a mwydion pren, sy’n gwbl fioddiraddadwy, fod hyn yn heriol.

7.98 Dangosodd Brwsel (2018) fod 'Cynnyrch Glanweithiol' (eitemau ar gyfer y mislif) yn cyfrif am tua 7% o eitemau plastig cyffredinol mewn sbwriel môr. Gan ddefnyddio canrannau o ‘Great British Beach Clean’ (dan arweiniad y Gymdeithas Cadwraeth Forol) DU, a ‘Clean Coasts Big Beach Clean’, Gweriniaeth Iwerddon (mae’r ddwy astudiaeth hon yn nodi’n benodol gyfraniad weips gwlyb at sbwriel yn y môr) mae weips gwlyb yn cyfrif am rhwng 45% a 51% o eitemau glanweithiol, sy’n cyfateb i 3% i 3.5% o gyfanswm y sbwriel yn y môr yn yr achos hwn. Mae O’Briain et al (2020) yn tynnu sylw at y ffaith bod weips gwlyb yn parhau i fod yn ffynhonnell microffibrau i’r amgylchedd fodd bynnag ac nad oes digon o sylw i hyn, ac felly gall gwir faint y ffynhonnell hon o blastig fod yn fwy na’r hyn a nodir yma.

7.99 Ac ystyried bod tystiolaeth anghyson ynghylch a fyddai weips gwlyb seliwlos yn diraddio’n gyflymach na weips gwlyb sy’n cynnwys plastig, mae Defra wedi dewis peidio â chyfleu’r effaith hon ar ffurf ariannol.

**Posibilrwydd o lai o rwystrau mewn carthffosydd**

7.100 Mae nifer o astudiaethau wedi dangos y gall weips gwlyb fod yn elfen gritigol o'r deunydd sy'n rhwystro carthffosydd yn Berlin (Mitchell et al 2017, Mitchell et al 2020 ) a Tokyo (Okamoto 2018). O’u cyfuno â brasterau, olewau a saim yn system y carthffosydd, mae weips gwlyb yn ffactor pwysig sy’n cyfrannu at ddatblygu ‘mynyddoedd braster’ mewn systemau carthffosydd (Fam et al 2017 yn Alda-Vidal et al 2020). Canfu Mitchell et al (2020), er bod deunydd anweëdig o weips gwlyb yn cyfrif am ddim ond 12% o solidau mewn carthffosydd, roedden nhw’n cyfrif am bron i 50% o’r solidau a oedd yn rhwystro pympiau.

7.101 Mae’n bosibl y bydd gwaharddiad ar weips gwlyb sy’n cynnwys plastig yn arwain at lai o rwystrau mewn carthffosydd gan fod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gall weips gwlyb sy’n cael eu gwneud o ddeunyddiau amgen, fel seliwlos, ddadelfennu’n haws mewn carthffosydd na weips sy’n cynnwys plastig. Er enghraifft, canfu O’Briain et al (2020) fod weips gwlyb sydd wedi’u

gwneud o selwlos yn unig yn haws eu rhwygo na'r rheini sydd wedi'u gwneud yn gyfan gwbl o PET, neu PET a seliwlos o dan amodau profi safonol (IWSFG PAS1, 2018). Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd weips gwlyb seliwlos yn dadelfennu, gan leihau'r risg o achosi rhwystrau mewn carthffosydd. Canfu Drinkwater a Moy (2017) mai weips babi a weips gwlyb na ellir eu fflysio oedd y cynhyrchion mwyaf cyffredin i'w canfod yn yr hyn a oedd yn rhwystro pibellau, pympiau a mewnfeydd gwaith trin dŵr gwastraff.

7.102 Fodd bynnag, mae tystiolaeth anghyson sy'n awgrymu na fydd weips gwlyb sy'n cael eu gwneud o ddeunyddiau amgen fel seliwlos yn llai tebygol o achosi rhwystrau mewn carthffosydd na weips sy'n cynnwys plastig. Canfuwyd bod y ffordd y mae weips gwlyb yn chwalu yn dibynnu ar sut maen nhw'n cael eu storio. Mae Harter et al (2021) yn dangos, heblaw am weips gwlyb wedi'u gwneud o fwydion coed heb eu cannu, fod gan yr holl weips gwlyb a brofwyd ganddyn nhw a oedd wedi'u gwneud o fisgos a mwydion coed ac wedi'u storio mewn hylif, werthoedd chwalu ymhell islaw'r hyn yr oedd ei angen i fod yn rhai 'mae modd eu fflysio'. Ac ystyried yr amser ar y llinell gynhyrchu, maen nhw'n dod i'r casgliad bod hyn yn dangos erbyn i'r weips hyn gael eu defnyddio gan ddefnyddwyr, ni fydd modd iddyn nhw chwalu'n hawdd, ac efallai eu bod yn cyfrannu at rwystro carthffosydd. Roedd gan weips gwlyb wedi'u gwneud o ffeibr byr pren meddal heb ei gannu lefel chwalu dderbyniol yn ystod y profion hyn (Harter et al 2021). Roedd siâp penodol ffibrau a ddefnyddiwyd hefyd yn effeithio ar sut roedd weips gwlyb yn chwalu, gyda ffibrau â chroestoriad gwastad yn chwalu'n well na'r rheini â chroestoriad crwn (Harter et al 2021).

7.103 Amcangyfrifir fod rhwystrau mewn carthffosydd yn costio £100 miliwn y flwyddyn i'r DU ac yn gallu achosi llifogydd mewn cartrefi a busnesau. Pe bai weips gwlyb seliwlos yn llai tebygol o achosi rhwystrau mewn carthffosydd, yna byddai'r costau i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth i gael gwared ar rwystrau mewn carthffosydd yn lleihau, a gallai fod gostyngiad yn y costau i aelwydydd a busnesau drwy gyfraddau yswiriant is. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o ymchwil ar y pwnc hwn ac mae rhywfaint o dystiolaeth anghyson. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch a fyddai weips gwlyb seliwlos yn llai tebygol o achosi rhwystrau mewn carthffosydd, dewisodd Defra beidio â chyfleu'r effaith hon ar ffurf ariannol, a chytunodd Llywodraeth Cymru â hyn.

### Crynodeb o'r costau a'r manteision - Effaith Cymru

7.104 Rhagwelir y bydd busnesau, sy'n cynnwys cynhyrchwyr plastig primaidd a chynhyrchwyr weips gwlyb, a manwerthwyr, yn wynebu costau net o £25m dros 10 mlynedd o ran gwerth presennol. Mae hyn yn £2.5m y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r sector cyhoeddus o ran ymgysylltiad awdurdodau lleol, gorfodaeth ac ati yn wynebu costau o £0.4m dros 10 mlynedd. Rhagwelir y bydd manteision net o £4.7m i'r amgylchedd dros 10 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad net mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, ni oedd modd mesur un o'r manteision allweddol, sef lleihau microblastigau yn yr amgylchedd.

7.105 Yr amcangyfrif cyffredinol ar gyfer Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV) yw -£21m (tabl 31). Fodd bynnag, fel y trafodwyd, nid yw hyn yn

cynnwys y fantais allweddol o lai o ficroblastigau yn yr amgylchedd. Disgwylir y bydd y fantais hon yn dwyn budd i'r amgylchedd ac i iechyd pobl. Mae tystiolaeth ar effeithiau microblastigau yn dal i ddatblygu ac felly nid yw'n bosibl pennu pa mor fawr fydd y manteision hyn. Felly, nid yw'n glir a fyddai cynnwys y rhain wedi arwain at werth presennol net cadarnhaol, ond, ac ystyried tystiolaeth gynyddol am niwed microblastigau i fywyd planhigion ac organebau'r môr, mae hyn wedi sbarduno Llywodraeth Cymru i gymryd camau i leihau microblastigau o gynhyrchion plastig untro.

*Tabl 31:* Crynodeb o'r costau a'r manteision yn y gwerth presennol dros 10 mlynedd i Gymru– (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | Accrues to | NPV (£m) |
|---|---|---|
| ***Costau*** | | |
| ***Cyfnod newid*** | | |
| **Costau cyfnod newid - manwerthu** | Manwerthwyr | £0.90 |
| **Costau cyfnod newid - cynhyrchwyr** | Cynhyrchwyr weips gwlyb | £4.58 |
| ***Bob blwyddyn*** | | |
| **Colled elw cynhyrchwyr weips gwlyb** | Cynhyrchwyr weips gwlyb | £33.44 |
| **Colled elw cynhyrchwyr plastig** | Cynhyrchwyr plastig primaidd | £1.44 |
| **Costau cludiant** | Manwerthwyr/Cynhyrchwyr weips gwlyb | £0.04 |
| **Gorfodaeth** | Sector Cyhoeddus | £0.09 |
| **Treth dirlenwi (trosglwyddo)** | Awdurdodau Lleol | £0.01 |
| **Costau rheoli gwastraff** | Awdurdodau Lleol | £0.30 |
| **Allyriadau cludiant** | Cymdeithas | £0.03 |
| ***Manteision*** | | |
| **Llai o allyriadau wrth gynhyrchu** | Cymdeithas | £2.65 |
| **Llai o allyriadau wrth waredu** | Cymdeithas | £2.02 |
| **Ennill elw cynhyrchwyr weips gwlyb** | Cynhyrchwyr weips gwlyb | £15.04 |
| **Treth dirlenwi (trosglwyddo)** | Trysorlys Ei Fawrhydi | £0.01 |
| ***Gwerth Cymdeithasol Presennol Net*** | | -£21.1 |

7.106 Mae Tabl 32 isod yn crynhoi'r costau a'r manteision i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru. Fel yr uchod, nid yw'r ffigurau'n ystyried manteision difesur plastig a microblastigau yn yr amgylchedd, na'r effeithiau ar iechyd pobl.

*Tabl 32:* Costau a manteision yn ôl y sector yr effeithir arno (£m) ar gyfer Cymru – (Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru)

| | Costau gwerth presennol | Buddion gwerth presennol | Gwerth presennol net |
|---|---:|---:|---:|
| **Busnes** | £40.4 | £15.0 | -£25.4 |
| **Sector cyhoeddus** | £0.4 | £0.01 | -£0.4 |
| **Cymdeithas** | £0.03 | £4.7 | £4.7 |

## Crynodeb o'r effaith ar fusnesau

## Effaith ar fusnesau

### *Cynhyrchwyr weips gwlyb*

7.107 Disgwylir mai cynhyrchwyr weips gwlyb fydd yn cael y rhan fwyaf o'r costau i fusnesau. Amcangyfrifir y bydd cynhyrchwyr weips gwlyb yn wynebu costau net ychwanegol o £3m y flwyddyn ar gyfartaledd (Tabl 33). Mae hyn yn cyfateb i 3% o refeniw wrth gynhyrchu weips gwlyb i'w gwerthu yng Nghymru. Mae'r costau uchaf yn 2027, sef blwyddyn gyntaf y gwaharddiad, pan amcangyfrifir y bydd y costau'n cyrraedd 4% o'r refeniw (gweler tabl 33 isod).

*Tabl 33:* Costau a refeniw cynhyrchwyr (£m) – effaith Cymru (amcangyfrifir o asesiad Defra o'r effaith economaidd 2024, heb ei gyhoeddi)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 | Average |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| **Costau cynhyrchwyr** | £2 | £4 | £2 | £2 | £2 | £3 |
| **Refeniw cynhyrchwyr (o gynhyrchu weips gwlyb i ddefnyddwyr)** | £92 | £96 | £102 | £104 | £111 | £101 |
| **Costau cynhyrchwyr fel % o refeniw cynhyrchwyr (defnyddwyr)** | 2% | 4% | 2% | 2% | 2% | 3% |
| **Refeniw cynhyrchwyr (o gynhyrchu pob math o weips gwlyb)** | £176 | £183 | £194 | £202 | £211 | £193 |
| **Costau cynhyrchwyr fel % o refeniw cynhyrchwyr (cyfanswm)** | 1% | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% |

### *Manwerthwyr*

7.108 Disgwylir mai bach iawn fydd y costau i fanwerthwyr. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir y bydd manwerthwyr yng Nghymru yn gweld costau cyfartalog o tua £97k y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 0.08% o refeniw o werthiant weips gwlyb. Disgwylir i'r costau ddigwydd i raddau helaeth yn ystod y ddwy flynedd gyntaf wrth i fanwerthwyr newid i werthu weips gwlyb di-blastig yn unig. Mae'r amcangyfrifon hyn hefyd yn cynnwys costau cludiant uwch o gludo o'r man cynhyrchu i'r siopau manwerthu (gweler tabl 34).

*Tabl 34:* Costau a refeniw manwerthwyr (£m) – effaith Cymru (o asesiad Defra o'r effaith economaidd 2024, heb ei gyhoeddi ac wedi'i addasu ar gyfer Cymru)

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 | Average |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau manwerthwyr** | £0.46 | £0.01 | £0.01 | £0.01 | £0.01 | £0.097 |
| **Refeniw manwerthwyr** | £121 | £126 | £134 | £140 | £146 | £133 |
| **Costau manwerthwyr fel % o refeniw manwerthwyr** | 0.379% | 0.007% | 0.004% | 0.004% | 0.004% | 0.079% |

*Cadwyn gyflenwi gyfan*

7.109 Wrth ystyried yr effeithiau ar y gadwyn gyflenwi weips gwlyb uniongyrchol (cynhyrchwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr weips gwlyb), mae cyfanswm y costau'n cyfateb i 2% o gyfanswm refeniw gwerthiant manwerthu bob blwyddyn ar gyfartaledd. Ar gyfartaledd, mae costau'r gadwyn gyflenwi yn cyfateb i 9% o gyfanswm elw'r gadwyn gyflenwi bob blwyddyn, er eu bod ar eu huchaf ar 14% yn 2027, fel y dangosir yn nhabl 35.

*Tabl 35:* Costau, refeniw ac elw'r gadwyn gyflenwi gyfan (£m) – effaith Cymru (o asesiad Defra o'r effaith economaidd 2024, heb ei gyhoeddi ac wedi'i addasu ar gyfer Cymru

| | 2025 | 2027 | 2030 | 2032 | 2034 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm costau'r gadwyn gyflenwi** | £3 | £4 | £2 | £2 | £2 | £3 |
| **Cyfanswm refeniw gwerthiant** | £121 | £126 | £134 | £140 | £146 | £133 |
| **Cyfanswm elw'r gadwyn gyflenwi (gan gynnwys cyfanwerthu)** | £27 | £28 | £29 | £31 | £32 | £29 |
| **Costau fel % o'r refeniw** | 2% | 3% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| **Costau fel % o'r elw** | 10% | 14% | 8% | 7% | 7% | 9% |

## Risgiau a thybiaethau

*Risgiau sy'n codi o waharddiad*

7.110 *Mwy o weips gwlyb yn cael eu fflysio'n amhriodol.* Os bydd gwaharddiad, gallai hyn wneud i ddefnyddwyr gredu bod yr holl weips gwlyb yn briodol i'w fflysio yn y systemau carthffosydd. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn fflysio weips gwlyb yn amhriodol. Dylid lleihau hyn gan fod y llywodraeth eisoes yn cefnogi ymgyrch 'Bin the Wipe' gan Water UK ac ymgyrch "Fine to Flush" Dŵr Cymru sy'n annog defnyddwyr i gael gwared ar weips gwlyb yn gywir. Bwriad yr ymgyrchoedd yw helpu i addysgu a newid ymddygiad defnyddwyr.

7.111 *Prisiau uwch neu ansawdd is.* Os bydd gwaharddiad, gallai manwerthwyr gynyddu prisiau weips gwlyb i wneud iawn am y cynnydd mewn costau cynhyrchu. Fel arall, er mwyn cynnal y prisiau, efallai y bydd cynhyrchwyr yn gostwng ansawdd weips gwlyb. Mae trafodaeth fanylach ar y risg hon ar gael

yn yr adran effeithiau ehangach ac mae'n cael sylw yn ein Hasesiadau Effaith Integredig ar wahân. Fodd bynnag, disgwylir y bydd gan ddefnyddwyr ddewis o opsiynau o hyd, gan gynnwys opsiynau weips gwlyb rhad.

7.112 *Darpariaeth annigonol o eithriadau.* Gallai'r gwaharddiad arwain at ganlyniadau annisgwyl fel diffyg mynediad i rai grwpiau mewn cymdeithas at weips gwlyb priodol. Mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn defnyddio dull risg isel drwy eithrio gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i'w defnyddio mewn lleoliadau busnes a lleoliadau meddygol, yn cynnwys gan unigolion sydd eu hangen ar gyfer eu gofal neu driniaeth feddygol eu hunain neu eraill.

7.113 *Colli swyddi gweithgynhyrchu weips gwlyb yn y DU:* Gallai'r gwaharddiad arwain at gynhyrchwyr yn lleihau neu'n rhoi'r gorau i gynhyrchu weips gwlyb a allai arwain at golli swyddi. Disgwylir i'r risg hon hyn gael ei lleihau oherwydd mai dim ond i'r cyflenwad a'r gwerthiant i farchnad y DU y mae'r gwaharddiad yn berthnasol. Mae manylion y gwaharddiad yn caniatáu i fusnesau fod yn gystadleuol dramor ar yr un pryd â chadw at yr un amodau â phawb arall ym marchnad y DU. Fodd bynnag, mae Kimberly-Clark wedi cyhoeddi y bydd ei waith gweithgynhyrchu yn Fflint yn cau ganol 2025.

*Risgiau sy'n codi o beidio â gwahardd gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig*

7.114 *Effeithiau amgylcheddol:* Er bod rhai busnesau wedi dweud bod ganddyn nhw gynlluniau i leihau neu i roi'r gorau i werthu neu gynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, mae tystiolaeth yn awgrymu na fyddai'r defnydd o blastig yn dod i ben yn ddigon cyflym. Byddai lefelau'r plastig sy'n mynd i'r amgylchedd yn parhau i gynyddu; a byddai allyriadau nwyon tŷ gwydr o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn parhau hefyd.

7.115 *Iechyd pobl*: gallai parhau i ddefnyddio plastigau diangen effeithio'n sylweddol ar iechyd pobl hefyd. Fel y trafodwyd, mae'r dystiolaeth yn tyfu ar effaith microblastigau ar iechyd pobl, ond mae pryderon y gall hyn fod yn sylweddol. Mae'r gwaharddiad yn ymdrin â'r dystiolaeth yn ofalus drwy gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i ddefnyddio plastig untro yn ddiangen.

7.116 *Colli cyfleoedd i arloesi:* Heb bwysau i ddod o hyd i ddewisiadau amgen i blastig, mae'n bosibl na fydd cynhyrchwyr yn blaenoriaethu cyfleoedd o'r fath. Bydd gwaharddiad yn gorfodi cynhyrchwyr i newid ffordd o gynhyrchu ac, oherwydd mwy o gystadleuaeth, gallai hyn arwain at fwy o arloesi sy'n arwain at ddeunyddiau sy'n perfformio'n well neu sy'n fwy ecogyfeillgar.

**Effeithiau ehangach eraill**

*A fydd cynhyrchwyr yn trosglwyddo costau ychwanegol i ddefnyddwyr?*

7.117 Mae disgwyl i sawl math o fusnes yn y gadwyn gyflenwi weips gwlyb wynebu costau ychwanegol oherwydd gwaharddiad. Yn y dadansoddiad cost a budd, tybir y bydd y costau hyn yn cael eu mewnoli gan y busnesau hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y busnesau hyn yn trosglwyddo costau i fyny'r

gadwyn gyflenwi, gyda manwerthwyr wedyn yn trosglwyddo'r costau hyn i ddefnyddwyr.

7.118 Mae i ba raddau y gall manwerthwyr drosglwyddo cynnydd mewn costau i ddefnyddwyr yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys elastigedd pris y galw (y newid yn y galw mewn perthynas â'r pris), lefel y gystadleuaeth yn y sector ac a yw'r cynnydd mewn costau ar draws y sector neu ar gynhyrchion gan un gwneuthurwr.

7.119 Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi cyhoeddi ymchwil yn y gorffennol ar drosglwyddo costau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae trosglwyddo costau yn digwydd pan fydd busnes yn newid pris ei gynnyrch neu ei wasanaethau yn dilyn newid yn ei gostau. Canfuwyd bod trosglwyddo costau yn gyffredinol yn is mewn achosion o gynnydd mewn costau penodol i gwmnïau o'i gymharu ag effeithiau cost ar draws y diwydiant (sioc). Ar y naill law, gellid ystyried bod gwaharddiad yn sioc i'r diwydiant cyfan gan ei fod yn berthnasol i'r holl fanwerthwyr a chynhyrchwyr sy'n dymuno cyflenwi marchnad y DU. Fodd bynnag, gan fod cyfran sylweddol o weips gwlyb eisoes yn ddi-blastig (rydym yn amcangyfrif dros 60%), a bod brandiau a manwerthwyr mawr eisoes yn cyflenwi weips di-blastig i farchnad y DU yn unig, mae ymchwil y Swyddfa Masnachu Teg yn awgrymu y gallai unrhyw gynnydd mewn costau o'r gwaharddiad ddisgyn ar gynhyrchwyr a manwerthwyr mewn modd anghyfartal.

7.120 Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau ddisgyn i ddechrau ar gynhyrchwyr, o ganlyniad i gostau mewnbwn uwch wrth gynhyrchu weips gwlyb di-blastig yn hytrach na rhai sy'n cynnwys plastig. Er bod rhai gweithgynhyrchwyr (gan gynnwys y rheini sydd â chyfran fawr o'r farchnad) eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer y weips plastig gwlyb maen nhw'n eu cynhyrchu ar gyfer marchnad y DU, mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn wynebu rhywfaint o gynnydd mewn costau. Mae'n bosibl bod rhai cynhyrchwyr eisoes wedi gweld gostyngiad ym maint eu helw o ganlyniad i'r ffordd iddyn nhw ymateb i'r newid yn y farchnad pan newidiodd rhannau o'r sector manwerthu i weips di-blastig. Felly, efallai y bydd y gwaharddiad yn cael ei ystyried yn gyfle i gynhyrchwyr gael y lefelau blaenorol o elw eto.

7.121 Y naill ffordd neu'r llall, mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn debygol o weld rhywfaint o gynnydd mewn costau. Felly, mae manwerthwyr yn debygol o fod â llai o reolaeth dros p'un a yw cynhyrchwyr yn trosglwyddo hyn iddyn nhw. Felly, er bod y costau'n debygol o gael eu hysgwyddo'n anghyfartal ar draws busnesau, mae'n dal yn debygol y byddai'r gwaharddiad yn debycach i sioc ar draws y diwydiant nag ar fusnesau unigol.

7.122 Yn achos sioc i'r diwydiant cyfan, mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn dangos bod rhywfaint o gostau'n cael eu trosglwyddo. Ac ystyried bod gan y diwydiant weips gwlyb yn y DU nifer gymharol uchel o gynhyrchwyr a brandiau sy'n cael eu gwerthu ar draws nifer fawr o fanwerthwyr, rydym yn amcangyfrif mai 85% o'r costau fydd yn cael eu trosglwyddo. Mae hyn yn ystyried bod brandiau yn cystadlu ar sail ffactorau ar wahân i bris, fel ansawdd, brandio, materion amgylcheddol ac ati. Mae ymchwil y Swyddfa Masnachu Teg yn awgrymu bod

hyn yn arwain at amcangyfrif canolog o gost a drosglwyddir o £1.67 y flwyddyn neu £0.03 yr wythnos fesul cartref yng Nghymru.

*A yw’r costau mewnbwn uwch sy’n ymwneud â weips gwlyb di-blastig yn codi mewn prisiau manwerthu ar hyn o bryd?*

7.123 Fe wnaeth asesiad Valpak o’r weips gwlyb sy’n cael eu rhoi ar y farchnad yn y DU ddadansoddi pris manwerthu weips gwlyb, gyda’r nod o weld a oedd gwahaniaeth rhwng prisiau weips gwlyb sy’n cynnwys plastig a weips gwlyb di-blastig. Fe wnaethon nhw ddefnyddio data prisiau o’u cronfa ddata EPIC sy’n cynnwys data ar gyfer pum archfarchnad fawr a manwerthwyr eraill y stryd fawr, gan edrych ar bris cynhyrchion weips gwlyb sy’n gwerthu orau ar draws pob categori weips gwlyb ar gyfer pob manwerthwr.

7.124 Nid oes yn rhaid i weips gwlyb gael eu labelu fel rhai sy’n cynnwys plastig neu ddim. Fel y mae Valpak yn nodi, o dan y rheoliadau presennol, mae’n bosibl i weips gwlyb sydd wedi’u labelu’n fioddiraddadwy gynnwys plastig. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gweld pa gynnyrch sy’n cynnwys plastig. Canfu Valpak mai dim ond tua chwarter y cynhyrchion yr edrychwyd arnyn nhw oedd yn cynnwys gwybodaeth ar eu deunydd pecynnu i ddangos a oedden nhw’n cynnwys plastig ai peidio. Felly, defnyddiwyd dau ddull gwahanol i bennu cynnwys plastig weips gwlyb.

7.125 Y cyntaf oedd tybio bod cydberthynas rhwng y gallu i fflysio a chynnwys plastig. Creodd Water UK (ynghyd ag ymgynghorwyr gwyddonol WRc) y safon ‘iawn-i'w-fflysio’. Er mwyn penderfynu a yw weips yn addas i gael y label ‘iawn-i'w-fflysio’, maen nhw’n gorfod cael nifer o brofion. Mae’r rhain yn cynnwys prawf i weld a oes ffibrau plastig sy’n deillio o elfennau petrocemegol ynddyn nhw. Felly, ni ddylai weips sy’n ‘iawn-i'w-fflysio’ gynnwys plastig synthetig.

7.126 Canfu Valpak fod y weip wlyb gyffredin ‘iawn-i'w-fflysio’ 3-4c yn rhatach na’r rhai nad oes modd eu fflysio (Tabl 36). Fodd bynnag, dywed Valpak y dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau hyn oherwydd mai maint sampl bychan ar gyfer weips sy’n bodloni’r safonau iawn-i'w fflysio.

*Tabl 36:* Prisiau weips gwlyb Valpak (o adroddiad Valpak yn 2022 heb ei gyhoeddi a gomisiynwyd gan Defra)

| Manyleb y Cynnyrch | Isafswm Pris Pecyn Llawn | Uchafswm Pris Pecyn Llawn | Isafswm Pris Fesul Weip | Uchafswm Pris Fesul Weip |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Iawn-i’w-Fflysio** | £1.31 | £1.38 | £0.05 | £0.06 |
| **Dim modd Fflysio** | £1.92 | £2.41 | £0.08 | £0.10 |

7.127 Roedd yr ail ddull yn categoreiddio tri math o gynnyrch:

a. Wedi'i nodi’n glir nad yw’n cynnwys plastig
b. Bioddiraddadwy
c. Wedi'i nodi’n glir ei fod yn cynnwys plastig neu heb ei nodi.

7.128 Canfuwyd mai categori a, hynny yw, weips di-blastig oedd â'r pris rhataf. Fodd bynnag, unwaith eto, mae Valpak yn tynnu sylw at gyfyngiadau gyda'r dull hwn. Oherwydd maint sampl bach, mae'r costau a gyflwynir yn gyfartaledd ar draws pob categori ac nid ydynt yn cyfrif am y gwahaniaeth mewn pris ar draws categorïau. Er enghraifft, gallai costau uchel nwyddau bioddiraddadwy gael eu hystumio gan y gyfran uwch o weips bioddiraddadwy yn y categori cosmetig (sy'n ddrutach ar y cyfan) nag yn y categorïau eraill (Tabl 37).

*Tabl 37:* Prisiau weips gwlyb Valpak (o adroddiad Valpak yn 2022 heb ei gyhoeddi a gomisiynwyd gan Defra)

| Manyleb y Cynnyrch | Isafswm Pris Pecyn Llawn | Uchafswm Pris Pecyn Llawn | Isafswm Pris Fesul Weip | Uchafswm Pris Fesul Weip |
|---|---|---|---|---|
| **Bioddiraddadwy** | £1.93 | £2.56 | £0.08 | £0.10 |
| **Di-blastig** | £1.69 | £1.95 | £0.07 | £0.08 |
| **Heb Nodi/Yn Cynnwys Plastig** | £1.87 | £2.24 | £0.07 | £0.09 |

7.129 Felly, er y byddai dadansoddiad Valpak, ar yr wyneb, yn awgrymu bod pris manwerthu is ar gyfer weips gwlyb di-blastig na weips sy'n cynnwys plastig, mae'n anodd dod i gasgliadau cryf; nid yw'n glir bod y canlyniadau hyn yn cynrychioli cymhariaeth tebyg am debyg.

7.130 Cynhaliwyd dadansoddiad pellach yn fewnol yn Defra. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar brisiau weips gwlyb a gafodd eu postio ar-lein gan bedwar o fanwerthwyr mwy (yn gynnar yn 2024). Roedd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar weips babi. Gwnaed hyn oherwydd tybiwyd y byddai'r sampl yn fwy ac y byddai cynhyrchion yn gymharol debyg ar draws brandiau. Ar ben hynny, weips babi yw'r categori weips gwlyb mwyaf yn ôl cyfran y farchnad, gyda 60% o weips gwlyb i ddefnyddwyr yn perthyn i'r categori hwn.

7.131 Ar draws y pedwar manwerthwr, roedd y weips babi rhataf (ar sail fesul pecyn a fesul weip) wedi'u labelu'n glir fel rhai di-blastig. Roedd y rhain i gyd yn costio tua £0.01 y weip ac roedd pob un yn gynnyrch 'brand eu hunain'. Nid oedd gan yr un o'r manwerthwyr hyn fersiwn 'brand eu hunain' a oedd yn cynnwys plastig er mwyn eu cymharu (Tabl 38).

*Tabl 38:* Prisiau weips babi pedwar prif fanwerthwr (o asesiad Defra o'r effaith economaidd 2024, heb ei gyhoeddi)

| | Manwerthwr 1 | | Manwerthwr 2 | | Manwerthwr 3 | | Manwerthwr 4 | | Cyfartaledd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plastig | Di-blastig | Plastig | Di-blastig | Plastig | Di-blastig | Plastig | Di-blastig | Plastig | Di-blastig |
| **Isel** | £0.00 | £0.01 | £0.00 | £0.01 | £0.02 | £0.01 | £0.02 | £0.01 | £0.02 | £0.01 |
| **Uchel** | £0.00 | £0.05 | £0.00 | £0.05 | £0.04 | £0.05 | £0.03 | £0.05 | £0.03 | £0.05 |

7.132 Tybiwyd felly y byddai'r cymariaethau gorau yn deillio o gymharu cynhyrchion o un brand. Ar draws y pedwar manwerthwr, dim ond un brand a oedd yn

gwerthu weips sy’n cynnwys plastig a rhai di-blastig (yn seiliedig ar y deunydd pecynnu a oedd yn nodi’n glir y naill ffordd neu’r llall; fel y trafodwyd, nid oedd nifer o frandiau yn egluro a oedd eu cynnyrch yn cynnwys plastig). Ar draws y pedwar manwerthwr, roedd y brand yn gwerthu dau gynnyrch di-blastig a thri chynnyrch sy’n cynnwys plastig. Roedd y cynhyrchion sy’n cynnwys plastig yn amrywio o £0.018 y weip i £0.036 y weip, gyda £0.027 y weip ar gyfartaledd. Mae’r cynhyrchion di-blastig yn amrywio o £0.019 y weip i £0.042 y weip, ac roedd pris fesul weip yn £0.03 ar gyfartaledd ar draws yr holl fanwerthwyr. Mae’r weips babi di-blastig yn costio £0.003 (11%) yn fwy na weips sy’n cynnwys plastig.

*Tabl 39:* Pris cynhyrchion gwahanol o fewn brand mewn pedwar manwerthwr (o asesiad Defra o’r effaith economaidd yn 2024, heb ei gyhoeddi)

| Enw’r cynnyrch | Plastig/Di-blastig | Manwerthwr 1 | Manwerthwr 2 | Manwerthwr 3 | Manwerthwr 4 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnyrch 1** | Plastig | | | £0.018 | £0.018 | £0.018 |
| **Cynnyrch 1 (di-blastig)** | Di-blastig | £0.019 | £0.021 | | | £0.020 |
| **Cynnyrch 2** | Heb nodi | | | £0.018 | £0.018 | £0.018 |
| **Cynnyrch 3** | Di-blastig | | | £0.025 | £0.031 | £0.028 |
| **Cynnyrch 4** | Plastig | | | £0.036 | £0.036 | £0.036 |
| **Cynnyrch 5** | Di-blastig | | £0.042 | | | £0.042 |
| **Cyfartaledd - plastig** | | | | | | £0.027 |
| **Cyfartaledd - di-blastig** | | | | | | £0.030 |

7.133 Wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, canfuwyd dau fanwerthwyr mawr a oedd wedi newid eu cynnyrch brand eu hunain i fod yn rhai di-blastig, gan egluro bod y gost o gynhyrchu’r cynhyrchion hyn wedi cynyddu rhywfaint. Dywedodd un eu bod yn gallu amsugno’r costau hyn a chadw at yr un pris manwerthu. Ar y dechrau, bu’n rhaid i’r manwerthwr arall godi’r pris manwerthu o tua 10% ar yr eitemau hyn. Wrth i fwy o gynhyrchu gael ei symud i fod yn ddi-blastig, roedd y manwerthwyr yn rhagweld y bydd y gwahaniaeth mewn prisiau manwerthu yn lleihau.

## 8 Asesu'r gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb**<br>**✓ neu ✗** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad? | ✓ |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad? | ✓ |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad? | ✓ |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau nag ar eraill? | ✓ |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid maint neu nifer y cwmnïau? | ✓ |
| **C6:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posibl nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu ar hyn o bryd? | ✗ |
| **C7:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posibl nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu ar hyn o bryd? | ✗ |
| **C8:** Ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd amlwg yn y sector? | ✗ |
| **C9:** A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu gallu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch? | ✓ |

8.19 Mae'r prawf hidlo cystadleuaeth yn dangos potensial y newid arfaethedig i effeithio ar gystadleuaeth yn y sector gweithgynhyrchu weips gwlyb, yn enwedig wrth ystyried hyn ar lefel y DU. O'r herwydd, mae asesiad manylach o'r sector hwn wedi'i gynnal. Mae'r asesiad yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

*A fydd y polisi'n mesur nifer neu ystod y cyflenwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?*

8.20 O'r dadansoddiad llinell sylfaen a amlinellir uchod, gwyddom fod nifer fach o weithgynhyrchwyr mawr yn rheoli'r farchnad weips gwlyb yn y DU ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae Nice-Pak yn honni eu bod yn cynhyrchu 'ymhell dros hanner' y weips babi (y categori defnyddwyr mwyaf) sy'n cael eu gwerthu yn y

DU, sy'n awgrymu eu bod yn cynhyrchu o leiaf 30% o weips gwlyb i ddefnyddwyr y DU.

8.21 Rhagwelir y bydd y gwaharddiad yn cynyddu costau i gynhyrchwyr. Mae ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi dweud wrthym fod y costau mewnbwn i gynhyrchu weips gwlyb di-blastig yn uwch na'r costau i gynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Gallai costau cynyddol achosi cynhyrchwyr i adael y farchnad yn ogystal ag arwain at rwystrau rhag mynediad i'r farchnad.

8.22 Ym mis Awst 2024, yn dilyn cadarnhad Llywodraeth y DU y byddai gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn cael ei wahardd, cyhoeddodd Kimberly-Clark y byddai'n cau ei ddau safle gweithgynhyrchu yng ngogledd Cymru ac yn symud y gwaith cynhyrchu i'r Almaen. Dywedodd y cwmni mai'r rheswm dros y symud oedd y gwaharddiad a'r anhawster o addasu prosesau cynhyrchu o fewn y cyfnod newid o 18 mis.

8.23 Fodd bynnag, ni chredir bod y costau i gynhyrchwyr gynhyrchu weips gwlyb di-blastig yn afresymol. Mae cyfran sylweddol o weips gwlyb eisoes yn ddi-blastig (62%), ac rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm y gost i gynhyrchwyr weips gwlyb o ganlyniad i'r newid arfaethedig yn ddim ond uchafswm o 3% o gyfanswm y refeniw i'r sector. O'r herwydd, ystyrir mai bach yw'r risg y bydd rhagor o gwmnïau'n cau.

8.24 Fel y trafodwyd yn yr adran llinell sylfaen, mae tystiolaeth yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn awgrymu mai dim ond busnesau canolig a mawr sy'n cynhyrchu weips i ddefnyddwyr sy'n cynnwys plastig, ac mae hyn yn lleihau'r risg y bydd microfusnesau a busnesau bach yn rhoi'r gorau i fod yn fusnes oherwydd baich gormodol y gwaharddiad.

*A fydd y mesur polisi yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i gystadlu?*

8.25 Bydd y gwaharddiad yn ei hanfod yn cyfyngu ar nodweddion y cynhyrchion a gyflenwir drwy wahardd defnyddio plastig. Fodd bynnag, fel sy'n cael ei ddangos yn yr adran prisiau defnyddwyr, mae amrywiaeth o ddewisiadau eraill addas ar gael yn barod. Mae cynhyrchion di-blastig eisoes yn cael eu cynhyrchu gan nifer o wahanol frandiau, gydag amrywiaeth o wahanol gynhyrchion ar y farchnad. Mae'r gwaharddiad hefyd yn gymhelliant i gynhyrchwyr arloesi i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gynhyrchu weips gwlyb di-blastig (er enghraifft, drwy ddefnyddio deunyddiau arloesol).

8.26 Fel y trafodwyd, disgwylir y bydd y gwaharddiad yn cynyddu'r gost o gynhyrchu weips gwlyb ar sail tebyg am debyg. Mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu costau uwch. Fodd bynnag, mae cyflenwyr eisoes yn cyflenwi weips gwlyb di-blastig cost isel. Fel y trafodwyd yn yr adran prisiau defnyddwyr, o'r pedwar manwerthwr mawr yr edrychwyd arnyn nhw, roedd y weips babi rhataf (fersiwn brand eu hunain) i gyd yn ddi-blastig yn barod. Roedd y manwerthwyr hyn hefyd yn gwerthu weips gwlyb di-blastig brand drud.

8.27 Yn gyffredinol, nid oes disgwyl i'r cyfyngiadau ar yr hyn y gall cyflenwyr ei gynhyrchu leihau llawer iawn ar eu gallu i gystadlu na lleihau'r amrywiaeth o gynhyrchion sydd ar gael.

*A fydd y mesur polisi yn cyfyngu ar gymhellion cyflenwyr i gystadlu?*

8.28 Ni fydd y mesur polisi yn cyfyngu ar gymhellion cyflenwyr i gystadlu, ac nid oes disgwyl iddo'i gwneud yn haws i fusnesau gyd-gynllwynio ar y pris manwerthu.

*A fydd y mesur polisi yn effeithio ar allu defnyddwyr i ymgysylltu â marchnadoedd a gwneud dewisiadau sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd orau ganddyn nhw?*

8.29 Bydd y gwaharddiad yn golygu na fydd defnyddwyr yn gallu dewis prynu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Fodd bynnag, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod y cyhoedd yn cefnogi gwaharddiad ac yn teimlo bod dewisiadau eraill di-blastig yn addas ar gyfer eu hanghenion. Fel y trafodwyd, rhagwelir y bydd dewis sylweddol i ddefnyddwyr o hyd.

8.30 Bydd y gwaharddiad yn dileu'r dryswch sy'n codi o'r labelu sy'n digwydd ar hyn o bryd ynghylch y plastig sydd mewn weips gwlyb. Ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid cyhoeddi cynnwys plastig ar ddeunydd pacio weips gwlyb, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr ddewis prynu weips gwlyb di-blastig. Fel y trafodwyd yn gynharach, gwelodd Valpak mai dim ond chwarter y cynhyrchion weips gwlyb yr edrychwyd arnyn nhw oedd yn datgan eu bod neu eu bod nhw ddim yn cynnwys plastig. Bydd y gwaharddiad yn rhoi'r hyder i ddefnyddwyr wybod eu bod yn prynu weips di-blastig.

*A fydd y mesur polisi yn effeithio ar allu neu gymhelliant cyflenwyr i gyflwyno technolegau, cynnyrch neu fodelau busnes newydd?*

8.31 Gallai'r gwaharddiad fod yn gatalydd i gynhyrchwyr arloesi i ddod o hyd i'r ffordd orau o gynhyrchu weips gwlyb di-blastig, megis chwilio am ddeunyddiau naturiol, arloesol gyda'r priodweddau gofynnol. Drwy eu hymatebion i'r ymgynghoriad, dywedodd cynhyrchwyr wrthym y byddai ymchwil a datblygu yn gost sylweddol yn ystod y broses newid.

## 9. Crynodeb o'r Asesiad Effaith

9.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig (IIA) llawn i arfarnu effeithiau - cadarnhaol a negyddol – cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y broses IIA, bydd **Adran 1** (Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?) ac **Adran 8** (Casgliad) o'r IIA, yn ogystal ag **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** ac **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

9.2 Lluniwyd yr Asesiad cyffredinol hwn drwy ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd drwy Ymgynghoriad Lleihau Plastig Untro Llywodraeth Cymru a'r ymgynghoriad ledled y DU ar y gwaharddiad arfaethedig o gynhyrchu, cyflenwi a gwerthu cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yn 2023 a'r gwaith ymgysylltu dilynol rhwng 2021 a 2025. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r ddeddfwriaeth arwain at effeithiau ar blant a phobl ifanc, pobl anabl, pobl hŷn, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofal plant a phobl ar incwm isel.

### Effeithiau

9.3 Cynhaliwyd naw asesiad effaith penodol yn y meysydd pwnc canlynol, er mwyn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ein cynigion. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y paragraffau canlynol.

- Bioamrywiaeth
- Y newid yn yr hinsawdd
- Hawliau plant
- Cydraddoldeb
- Prawfesur Gwledig
- Data/Preifatrwydd
- Anfantais economaidd-gymdeithasol
- Y Gymraeg
- Effaith ar Gyfiawnder

### Bioamrywiaeth

9.5 Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i gwblhau. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi chwe amcan a fydd yn cyfrannu at wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru, ac mae un yn ymwneud â mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd. Mae cynhyrchu a gwaredu'n amhriodol gynhyrchion untro (yn enwedig y rhai sydd wedi'u gwneud o blastig) yn cyfrannu at y pwysau hwn.

9.6 Yn ôl cyhoeddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) Global Plastics Outlook: Policy Scenarios to 2060, "Plastic pollution is one of the great environmental challenges of the 21st Century, causing wide-ranging damage to ecosystems and human health". Amcangyfrifwyd bod 400.3 miliwn tunnell fetrig o blastig wedi'i gynhyrchu'n fyd-eang yn 2022. Mae adroddiad yr OECD yn amcangyfrif, heb ymyriadau

polisi a rheoleiddio, y bydd y defnydd o blastigau yn fyd-eang bron wedi treblu erbyn 2060, wedi'i sbarduno gan dwf economaidd a thwf yn y boblogaeth.

9.7 Nododd astudiaeth yn 2021 a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Science of the Total Environment fod cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yn gyfrannwr sylweddol at lygredd plastig mewn afonydd a chefnforoedd. Mae cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yn aros yn yr amgylchedd pan fyddant yn cael eu gwaredu'n anghywir, gan dorri i lawr yn ficroblastigau dros amser.

9.8 Canfu Prosiect Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU (heb ei gyhoeddi) yn 2022 y gall gweithfeydd trin dŵr gwastraff gael gwared ar 99% o ficroblastigau yn ôl nifer a 99.5% yn ôl màs, ond mae tystiolaeth gynyddol y gall hyd yn oed canran fach o ficroblastigau sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth achosi niwed i fywyd gwyllt, i'r amgylchedd a hyd yn oed i iechyd pobl.

9.9 Felly, bydd gwahardd cyflenwi cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig o fudd i fioamrywiaeth drwy leihau'r difrod i'r amgylchedd naturiol a allai ddeillio o lygredd microplastigau a phlastigau pan fydd y cynhyrchion hyn yn cael eu gwaredu'n amhriodol.

## Y Newid yn yr Hinsawdd

9.10 Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad cenedlaethol a byd-eang parhaus i'n hiechyd, i'n heconomi ac i'n hamgylchedd naturiol. I gydnabod hyn, ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru.

9.11 Yn ôl adroddiad 'carbon waste and resources metrics' WRAP yn 2021, mae llosgi plastig yn arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol o gymharu â deunyddiau naturiol amgen. Yn achos cadachau gwlyb, mae fiscos, sydd wedi'i wneud o dros 99% o fwydion pren a lyocell, yn ddewisiadau amgen nad ydynt yn cynnwys plastig sydd ar gael yn gyffredin y gellir eu defnyddio yn lle cadachau sy'n cynnwys plastig. Felly, mae cyfyngu ar faint o blastig sy'n mynd i mewn i'r llif gwastraff gweddilliol yn bwysig ar gyfer lleihau allyriadau trin gwastraff. Canfu asesiad cylch bywyd o 2021 gan Zhang, et al, sy'n cymharu cadachau gwlyb plastig â'r rhai sydd wedi'u gwneud o fiscos sydd ar gael ar y farchnad yn Tsieina, fod y rhain yn ddewisiadau amgen addas i atal plastig o gadachau gwlyb rhag mynd i mewn i'r amgylchedd.

9.12 Yn yr un modd, mae cynhyrchu plastig sylfaenol hefyd yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae cynhyrchu un dunnell o blastig yn cynhyrchu 1.9-2.3 tunnell o Co2e (cyfwerth â charbon deuocsid, mesur o botensial cynhesu byd-eang) o gymharu â 0.2 tunnell o Co2e sy'n cael ei ryddhau i gynhyrchu tunnell o bren, o'r un adroddiad metrigau WRAP uchod.

9.13 Mae ein cynigion i wahardd cyflenwi cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yn cyd-fynd ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau ein bod yn ymwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn. O dan yr addewid hwn, ceir ymrwymiad penodol hefyd i "[Dd]eddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel'.

## Hawliau Plant

9.14 Bydd y gwaharddiad ar gyflenwi cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yng Nghymru yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar hawliau plant, fel y'u diffinnir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) wedi nodi bod y gwaharddiad ar gyflenwi cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yn bodloni'r gofyniad yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol **Erthyglau 1, 2, 12, 13, 23 and 24.**

9.15 Bydd ein cynigion yn lleihau effeithiau negyddol sbwriel, llygredd plastig a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant. Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol; bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddiogelu ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n llesiant yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

9.16 Mae gan y polisi y potensial i gael effaith negyddol ar y plant a'r bobl ifanc hynny (neu deuluoedd â phlant a phobl ifanc), sydd ar hyn o bryd yn defnyddio cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig ar sail pris. Fodd bynnag, gyda llawer o weithgynhyrchwyr a manwerthwyr eisoes yn symud i ddeunyddiau amgen, rhagwelir y bydd unrhyw gynnydd tymor byr mewn costau yn lleihau unwaith y bydd mwy o gynhyrchion yn cael eu rhoi ar y farchnad.

9.17 Ni allwn ragweld unrhyw effeithiau posibl ar Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) sy'n ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed, yn sgil y ddeddfwriaeth arfaethedig.

## Cydraddoldeb

9.19 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.

9.20 Bydd gwahardd cyflenwi cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig yn tynnu'r cynhyrchion hyn o'r farchnad ac eithrio'r rhai a ddyluniwyd neu a gynhyrchwyd i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol. Mae cadachau gwlyb sy'n cael eu gwerthu gan fusnes i fusnes y tu allan i gwmpas y gwaharddiad a byddant yn parhau i fod ar gael i'w defnyddio gan fusnesau a sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector gofal, a allai ei gwneud yn ofynnol i'r rhain ddarparu gofal neu wasanaethau i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n ymwneud ag oedran neu anabledd. Codwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar bobl anabl a gofalwyr mewn perthynas â pherfformiad neu gost dewisiadau amgen di-blastig. Fodd bynnag, gan fod manwerthwyr mawr megis cadwyni archfarchnadoedd a fferyllwyr mawr eisoes wedi bod yn rhoi'r gorau i werthu cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig

dros sawl blwyddyn, mae defnyddwyr sy'n cael cadachau gwlyb gan y cyflenwyr hyn yn debygol o fod yn defnyddio cadachau di-blastig yn barod.

9.21 Mae materion sy'n ymwneud â'r gost i ddefnyddwyr yn cael eu hymchwilio yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, a ganfu gwahaniaeth mewn prisiau i ddefnyddwyr o 0.22c y cadach (yn seiliedig ar brisiau 2019). Mae'r asesiad yn rhagweld cynnydd cychwynnol bach ym mhris cadachau di-blastig yn dilyn cyflwyno'r gwaharddiad a disgwylir iddo leihau wrth i gadachau gwlyb di-blastig ddod yn gynnyrch safonol. Wrth ysgrifennu’r geiriau hyn ym mis Ebrill 2025, mae'r pris fesul cadach di-blastig eisoes wedi gostwng o gymharu â gwerthoedd 2019, wrth iddynt ddod yn fwy cyffredin.

9.22 Nid ydym yn credu bod y cynigion yn wahaniaethol nac yn anghyfreithlon fel arall o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Serch hynny, byddwn yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r cynigion ac yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol.

## Prawfesur Gwledig

9.23 Cynhaliwyd Asesiad Sgrinio Prawfesur Gwledig, a nododd effeithiau negyddol cyfyngedig y cynigion ar gymunedau gwledig. Gan y gall y rhai sy'n byw mewn lleoliadau gwledig fod â llai o ddewis o ran pa gadachau gwlyb y gallant eu prynu, gall hyn gael effaith economaidd fach ar y rhai sy'n gweithio ac yn byw mewn cymunedau gwledig. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld na fydd llawer o broblemau o ran cost, cyflenwad ac argaeledd sy'n gysylltiedig â chynhyrchion amgen wrth i gadachau di-blastig ddod yn fwy cyffredin ar ôl cyflwyno'r gwaharddiadau ledled y DU.

9.24 Mae effeithiau cadarnhaol y cynigion yn deillio o'r manteision i'r amgylchedd drwy leihau sbwriel a’r niwed amgylcheddol a geir o lygredd plastig yn sgil gwaredu cadachau gwlyb yn amhriodol.

## Diogelu Data

9.29 Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn nodi unrhyw effaith y caiff ein cynigion ar y defnydd o ddata personol, a hefyd unrhyw newidiadau i’r defnydd hwnnw.

9.30 Yn seiliedig ar ddadansoddiad cychwynnol, ac oherwydd na fydd Llywodraeth Cymru yn prosesu unrhyw ddata personol ar gyfer y cynnig hwn, penderfynwyd na fyddai angen DPIA llawn ac nad oes angen cyngor ar gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

9.31 Bydd gan Awdurdodau Lleol unigol a fydd yn gorfodi'r gwaharddiadau eu prosesau eu hunain ar waith i ymdrin â diogelu data (er enghraifft, wrth geisio erlyn neu gyflwyno sancsiynau sifil).

## Anfantais economaidd-gymdeithasol

9.32 Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

9.33 Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar bob unigolyn (gan gynnwys y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol) drwy leihau'r effaith amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â llygredd plastig a microblastig.

9.34 Gall y cynigion arwain at gost ychwanegol yn y tymor byr i unigolion yng Nghymru sy'n gwerthu neu'n defnyddio cadachau sy'n cynnwys plastig, a fydd yn effeithio ar gyfran uwch o'r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Adroddwyd bod cynnydd mewn costau byw yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a pherthnasoedd teuluol.

9.35 Mae materion sy'n ymwneud â'r gost i ddefnyddwyr yn cael eu hymchwilio yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, a ganfu gwahaniaeth mewn prisiau i ddefnyddwyr o 0.22c y cadach (yn seiliedig ar brisiau 2019). Mae'r asesiad yn rhagweld cynnydd cychwynnol bach ym mhris cadachau di-blastig yn dilyn cyflwyno'r gwaharddiad a disgwylir iddo leihau wrth i gadachau gwlyb di-blastig ddod yn gynnyrch safonol. Ar adeg ysgrifennu'r geiriau hyn ym mis Ebrill 2025, mae'r pris fesul cadach di-blastig eisoes wedi gostwng o gymharu â gwerthoedd 2019, wrth iddynt ddod yn fwy cyffredin.

## Y Gymraeg

9.36 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn llawn effaith ein cynigion ar y Gymraeg. Bydd cynhyrchu'r ddeddfwriaeth, canllawiau i fanwerthwyr, deunyddiau codi ymwybyddiaeth ac asesiadau effaith penodol yn ddwyieithog yn galluogi mynediad cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn unol â Deddf Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

9.37 Bydd hyn hefyd yn helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

9.38 Ni wnaeth ymgynghoriadau cyhoeddus ar y cynigion yn 2020 a 2023 arwain at unrhyw ymgynghorai yn nodi sut y gallai'r cynigion hyn niweidio'r Gymraeg. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith nac ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran.

## Effaith ar Gyfiawnder

9.39 Cynhaliwyd asesiad fel rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth. Bydd y cynigion yn creu troseddau newydd o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 a hefyd yn caniatáu i gyrff gorfodi ddefnyddio'r drefn sancsiynau sifil a nodir yn Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 fel dewis arall yn lle trosedd droseddol.

9.40 O ganlyniad, rydym yn rhagweld y bydd nifer yr achosion y disgwylir iddynt gyrraedd y llys yn llai na phump y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar archwilio troseddau amgylcheddol tebyg eraill, megis y rhai o dan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010, Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 a Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

## 10. Adolygiad ôl-weithredu

10.1 Bydd Llywodraeth Cymru’n cynnal adolygiad ôl-weithredu o Ddeddf 2023 heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym ym mis Hydref 2023. Bydd y gwaharddiadau ar gadachau gwlyb sy'n cynnwys plastigau yn dod i rym dair blynedd ar ôl y dyddiad hwn (Rhagfyr 2026). Yn dibynnu ar yr adeg y cynhelir yr adolygiad ôl-weithredu, rhagwelir y bydd y cwmpas yn cynnwys cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastigau h.y. ar ôl 2026.

10.2 Yn absenoldeb cwmpas ffurfiol yr adolygiad, rydym yn rhagweld y byddai hyn yn cynnwys:

- Nodi a gwerthuso'r effeithiau mae'r ddeddfwriaeth wedi'u cael ar y defnydd o gadachau gwlyb sy'n cynnwys plastigau ac ymddygiad cysylltiedig defnyddwyr yng Nghymru.
- Nodi a gwerthuso pa effeithiau mae'r ddeddfwriaeth wedi'u cael ar fusnesau yng Nghymru.
- Nodi a gwerthuso i ba raddau mae'r ddeddfwriaeth wedi llwyddo i annog symud i gynhyrchion amgen a/neu gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.
- Nodi, lle bo hynny'n bosibl, a gwerthuso i ba raddau mae'r ddeddfwriaeth wedi effeithio ar leihau effeithiau amgylcheddol cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig.